**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod o AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU DDYDD LLUN 21 MEHEFIN 2021 yn rhithiol drwy Zoom.**
**Bydd y cyfarfod yn dechrau yn syth ar ôl y cyfarfod blynyddol.**

Yn gywir

Colin Everett
Clerc

**AGENDA**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Ddiddordeb**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**
   Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 15 Mawrth 2021**

5. **Materion yn Codi**

6. **Adroddiad y Cadeirydd (ar lafar)**

7. **Diweddariad COVID-19 (ar lafar)**

8. **Monitro Perfformiad Ebrill 2020 – Mawrth 2021**

9. **Cynllun Archwilio 2021**

10. **Datganiad Drafft o Gyfrifon 2020/21**

11. **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21**

12. **Gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol 2020/2021**

13. **Her gyfreithiol i ddiwygiadau pensiwn 2015**

14. **Datganiad Caethwasiaeth Fodern 2020/21**

**15. Bwrdd Pensiwn Lleol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Adroddiad Blynyddol 2020/21**

**16. Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân: Cylch Gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol**

**17. Materion Brys**

Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 2 uchod.

## <u>RHAN II</u>

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

**18. Dim**

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Mehefin 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol (01745 535286)** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad Ebrill 2020 – Mawrth 2021** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am weithgareddau a pherfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn perthynas â'r amcanion gwella yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, aeth y Gwasanaeth at gyfanswm o 4,698 o argyfyngau a galwadau diangen – 3.6% yn is nag yn yr un misoedd yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

3. Aethpwyd at gyfanswm o 1,770 o danau yn ystod y flwyddyn - 180 (9.2%) yn is nag yn 2019/20. Yn cyfrannu at y gostyngiad cyffredinol hwnnw roedd nifer is o danau eilaidd a thanau mewn adeiladau amhreswyl, ond roedd llai hefyd o danau bwriadol a phrif danau mewn cartrefi.

4. Aeth y Gwasanaeth at 2,314 o alwadau diangen yn ystod y flwyddyn – 40 (1.8%) yn fwy nag yn 2019/20.

5. Hefyd, aeth y Gwasanaeth at 614 o ddigwyddiadau nad oeddent yn argyfyngau, sef 34 (5.2%) yn is nag yn 2019/20. O fewn y cyfanswm hwnnw, roedd 105 o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd - 74 (41.4%) yn is nag yn 2019/20.

6. Fe wnaeth nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi ostwng 4 (1.1%). Yn y digwyddiadau hynny, cofnodwyd bod 29 o bobl wedi cael mân anafiadau a bod 3 wedi cael anafiadau difrifol. Yn anffodus, collodd 5 o bobl eu bywydau mewn tanau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y flwyddyn, sef 2 yn fwy nag yn 2019/20.

7. Er gwaethaf y cyfyngiadau oherwydd y pandemig, llwyddodd y Gwasanaeth i gynnal 11,334 o Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys 4,382 i gartrefi a oedd yn cael eu hadnabod fel rhai â risg uchel o gael tân. Roedd y nifer a gynhaliwyd yn is na'r bwriad, ond fe wnaeth y Gwasanaeth barhau i dargedu ei weithgareddau at y rhai â'r angen mwyaf oherwydd roedd 34.5% (3,908) o'r Archwiliadau a gynhaliwyd wedi dod o atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth gan asiantaethau eraill dan gytundebau partneriaethol a grëwyd i helpu i ganfod cartrefi sy'n fwy agored i niwed.

8. Yn siomedig, fodd bynnag, cynyddodd nifer y tanau mewn cartrefi yr aeth y Gwasanaeth atynt ac a oedd heb larwm mwg, o 43 yn 2019/20 i 51 yn 2020/21; felly hefyd, gostyngodd nifer y tanau mewn cartrefi lle roedd larwm mwg wedi rhoi gwybod am y tân i'r preswylwyr, o 176 yn 2019/20 i 165 yn 2020/21.

**ARGYMHELLIAD**

9. Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**GWYBODAETH**

10. Mae'r adroddiad monitro am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 wedi'i atodi er gwybodaeth i'r Aelodau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n helpu'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant sydd yn ei gynllun cyfunol ar gyfer gwella a llesiant 2020/21. |
| Cyllideb | Mae'n helpu i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posibl ar y gyllideb oherwydd lefel annisgwyl o weithgarwch o ran digwyddiadau. |
| Cyfreithiol | Mae'n helpu'r Awdurdod i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y gofynion sydd arno oherwydd lefelau amrywiol o weithgarwch o ran digwyddiadau. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Byddai peidio â bodloni'r gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch perfformiad a'i fonitro yn gallu effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

## Blwyddyn Lawn

## Ebrill 2020 – Mawrth 2021


**Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro, a gallai mân newidiadau gael eu gwneud.**

**CYNNWYS**


| ADRODD YNGHYLCH GWEITHGARWCH MEWN PERTHYNAS Â DIGWYDDIADAU | |
|---|---|
| | |
| **YR HOLL DDIGWYDDIADAU** | |
| Golwg gyffredinol ar yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | 1 |
| | |
| **TANAU YN ÔL CATEGORÏAU** | |
| Tanau yn ôl categori a chymhelliad | 2 |
| Tanau yn ôl math o eiddo a chymhelliad | 3 |
| | |
| **GALWADAU DIANGEN** | |
| Galwadau diangen yn ôl categori | 4 |
| | |
| **DIGWYDDIADAU GWASANAETH ARBENNIG** | |
| Digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ôl categori | 5 |
| Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Thorri Allan/Rhyddhau | 6 |
| | |
| **MONITRO MEWN PERTHYNAS AG AMCAN GWELLA A LLESIANT – A** | |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 7 |
| Marwolaethau ac anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 8 |
| Archwiliadau Diogel ac Iach | 9 |
| Larymau mwg wedi seinio (tanau damweiniol mewn cartrefi) | 10 |
| | |
| **GEIRFA** | |
| Geirfa | 11 |

## 1.0 Yr Holl Ddigwyddiadau

1.1 Yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21, aeth y Gwasanaeth at 4,698 o argyfyngau, sef 174 yn is (3.6%) nag yn y flwyddyn flaenorol (4,872).





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y digwyddiadau yr aethpwyd atynt | 2020-21 | 1,378 | 1,231 | 998 | 1,091 | 4,698 | ↓ 3.6% | 5,300 | ↓ 11.4% |
| | 2019-20 | 1,330 | 1,329 | 1,078 | 1,135 | 4,872 | | | |
| Yr holl danau | 2020-21 | 653 | 433 | 324 | 360 | 1,770 | ↓ 9.2% | 2,086 | ↓ 15.1% |
| | 2019-20 | 586 | 521 | 392 | 451 | 1,950 | | | |
| Cyfanswm y digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 2020-21 | 96 | 182 | 137 | 199 | 614 | ↓ 5.2% | 998 | ↓ 38.5% |
| | 2019-20 | 171 | 175 | 141 | 161 | 648 | | | |
| Cyfanswm y galwadau diangen | 2020-21 | 629 | 616 | 537 | 532 | 2,314 | ↑ 1.8% | 2,217 | ↑ 4.4% |
| | 2019-20 | 573 | 633 | 545 | 523 | 2,274 | | | |

Yn y golofn dde yn y tabl, gellir gweld cymariaethau â'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd.

## 2.0 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliad

2.1 **Prif Danau –** cafwyd gostyngiad cyson yn nifer y prif danau bob blwyddyn. Cafwyd 804 o brif danau yn 2020/21 o gymharu â 967 yn 2019/20, sef 16.9% o ostyngiad. Cafwyd 31.5% o ostyngiad yn nifer y prif danau bwriadol, sef o 248 yn 2019/20 i 170 yn 2020/21.

2.2 **Tanau Eilaidd –** mae nifer y tanau hyn yn mynd i fyny ac i lawr bob blwyddyn, ac mae'r tywydd yn cael dylanwad mawr ar nifer yr achosion. Mae'r rhan fwyaf o danau eilaidd (dros 95%) wedi digwydd mewn eiddo 'awyr agored'. Fe wnaeth nifer y tanau eilaidd bwriadol ostwng 31.9% i 276 yn 2020/21 o 405 yn y flwyddyn flaenorol.





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif danau | 2020-21 | 224 | 217 | 190 | 173 | 804 | ↓ 16.9% | 974 | ↓ 17.5% |
| | 2019-20 | 238 | 267 | 224 | 238 | 967 | | | |
| Tanau eilaidd | 2020-21 | 394 | 202 | 95 | 118 | 809 | ↓ 3.5% | 968 | ↓ 16.4% |
| | 2019-20 | 319 | 245 | 113 | 161 | 838 | | | |
| Tanau Simnai | 2020-21 | 35 | 14 | 39 | 69 | 157 | ↑ 8.3% | 144 | ↑ 9.0% |
| | 2019-20 | 29 | 9 | 55 | 52 | 145 | | | |

Yn y golofn dde yn y tabl gellir gweld cymariaethau â'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd.

## 3.0 Prif Danau, yn ôl Math o Eiddo a Chymhelliad

3.1 Yn 2020/21, 'adeiladau' a 'cherbydau ffyrdd' oedd y rhan fwyaf o brif danau, sef 71.8% a 23.3% ar gyfartaledd yn eu trefn, gyda'r 5% arall yn rhai 'awyr agored'. Yn 2020/21, fe wnaeth nifer y tanau cerbydau ostwng 33.7% o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Cafwyd cynnydd bach yn nifer y tanau mewn cartrefi a gafodd eu cynnau'n ddamweiniol, a 39.6% o ostyngiad yn nifer y tanau mewn adeiladau amhreswyl a gafodd eu cynnau'n fwriadol. Fe wnaeth nifer y tanau bwriadol a damweiniol mewn cerbydau ('ffyrdd' a thrafnidiaeth 'arall') ostwng 34.1% a 33.5% yn eu trefn.





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Categori Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl brif danau bwriadol | 2020-21 | 41 | 47 | 34 | 48 | 170 | ↓ 31.5% | 235 | ↓ 27.7% |
| | 2019-20 | 43 | 66 | 66 | 73 | 248 | | | |
| Yr holl brif danau damweiniol | 2020-21 | 183 | 170 | 156 | 125 | 634 | ↓ 11.8% | 739 | ↑ 43.1% |
| | 2019-20 | 195 | 201 | 158 | 165 | 719 | | | |

Yn y golofn dde yn y tabl gellir gweld cymariaethau â'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd.

## 4.0 Galwadau Diangen

4.1 Yn 2020/2, cafwyd 2,314 o alwadau diangen, sef 1.8% o gynnydd o 2,274 o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Cynyddodd nifer y galwadau diangen didwyll 3.9%, tra gostyngodd nifer y galwadau diangen maleisus 2.4%; 41 o ddigwyddiadau yn y flwyddyn flaenorol o gymharu â 40 yn 2020/21. Cafwyd un yn fwy o alwadau diangen oherwydd cyfarpar (larymau tân awtomatig), sef o 1,214 yn 2020/21 i 1,213 yn 2019/20.





| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Larymau Tân Awtomatig | 1,150 | 1,113 | 1,133 | 1,213 | 1,214 | 1,153 |
| Didwyll | 942 | 958 | 1,092 | 1,020 | 1,060 | 1,023 |
| Maleisus | 48 | 39 | 41 | 41 | 40 | 40 |
| Cyfanswm | 2,140 | 2,110 | 2,266 | 2,274 | 2,314 | 2,217 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau diangen | 2020-21 | 629 | 616 | 537 | 532 | 2,314 | ↑ 1.8% | 2,217 | ↑ 4.4% |
| | 2019-20 | 573 | 633 | 545 | 523 | 2,274 | | | |
| Larymau tân awtomatig | 2020-21 | 282 | 331 | 304 | 297 | 1,214 | ↑ 0.1% | 1,153 | ↑ 5.3% |
| | 2019-20 | 288 | 339 | 307 | 279 | 1,213 | | | |
| Galwadau diangen didwyll | 2020-21 | 330 | 284 | 219 | 227 | 1,060 | ↑ 3.9% | 1,023 | ↑ 3.6% |
| | 2019-20 | 273 | 283 | 229 | 235 | 1,020 | | | |
| Maleisus | 2020-21 | 17 | 1 | 14 | 8 | 40 | ↓ 2.4% | 40 | → 0% |
| | 2019-20 | 12 | 11 | 9 | 9 | 41 | | | |

Yn y golofn dde yn y tabl gellir gweld cymariaethau â'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd.

## 5.0 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig

5.1 Yn 2020/21, cafwyd 614 o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig o gymharu â 648 yn y flwyddyn ariannol flaenorol, sef gostyngiad o 5.2%; cafwyd gostyngiad yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd tra cafwyd cynnydd yn nifer yr argyfyngau nad oeddent yn danau.





| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| GRFfs | 215 | 204 | 220 | 179 | 105 |
| Heblaw gwrthdrawiadau (ac eithrio prosiectau) | 417 | 423 | 333 | 396 | 423 |
| Prosiectau blaenorol (Tîm Cymorth Cymunedol, Cyd-ymateb) | 535 | 938 | 121 | 0 | 0 |
| Prosiectau cyfredol (Ar goll o gartref, Dull Mynediad) | 25 | 25 | 81 | 73 | 86 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 2020-21 | 96 | 182 | 137 | 199 | 614 | ↓ 5.2% | 998 | ↓ 38.5% |
| | 2019-20 | 171 | 175 | 141 | 161 | 648 | | | |
| Gwrthdrawiad-au traffig ar y ffyrdd | 2020-21 | 17 | 32 | 32 | 24 | 105 | ↓ 41.3% | 201 | ↓ 47.8% |
| | 2019-20 | 53 | 58 | 33 | 35 | 179 | | | |
| Heblaw gwrthdrawiad au traffig ar y ffyrdd | 2020-21 | 79 | 150 | 105 | 175 | 509 | ↑ 8.5% | 797 | ↓ 36.1% |
| | 2019-20 | 118 | 117 | 108 | 126 | 469 | | | |

Yn y golofn dde yn y tabl gellir gweld cymariaethau â'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd.

## 6.0 Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Thorri Allan/Rhyddhau

6.1 Yn ystod 2020/21, aeth y Gwasanaeth at 105 o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a 41.3% o ostyngiad o gymharu â 179 yn 2019/20. O'r 105 o ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt, roedd 42 (40%) wedi golygu torri allan a/neu ryddhau, ac mae'r gyfran hon wedi amrywio'n gyson rhwng 36% a 40% o'r gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr aethpwyd atynt dros y 5 blynedd ddiwethaf.




**105** RTC incidents attended

**70** incidents where people sustained injury


**42** incidents involved extrication / release

| Severity of Injury * | Number of people |
|---|---|
| Precautionary check | 11 |
| First Aid | 7 |
| Injuries - Slight | 37 |
| Injuries - Serious | 27 |
| Fatalities | 8 |

** RTC injuries - where available - are recorded in the IRS in the same categorisation as fire injuries*

**7.0 Monitro mewn perthynas ag amcan Gwella a Llesiant - A:** *Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd.*

7.1 Yn ystod 2020/21, cynyddodd nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi i 360 o 356 yn y flwyddyn flaenorol. Tra roedd nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi wedi gweld tueddiad am i lawr hyd at 2018/19, pryd cofnodwyd y cyfanswm blynyddol isaf o danau damweiniol mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru, mae nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi wedi codi ychydig yn y ddwy flynedd olynol.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 2020-21 | 104 | 83 | 96 | 77 | 360 | ↑ 1.1% | 356 | ↑ 1.1% |
| | 2019-20 | 98 | 88 | 82 | 88 | 356 | | | |
| Yn y golofn dde yn y tabl gellir gweld cymariaethau â'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd. | | | | | | | | | |

## 8.0 Marwolaethau ac anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi

8.1 Yn 2020/21, cafwyd 91 o anafusion anangheuol oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi; cafwyd un yn llai o anafiadau difrifol a 3 yn fwy o fân anafiadau o gymharu ag yn 2019/20.

8.2 Yn ystod 2020/21, cafwyd pum marwolaeth oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi, gydag un yn aros cadarnhad gan y Crwner.


| Difrifoldeb yr Anaf | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwiliad Rhagofalus | 49 | 32 | 13 | 19 | 33 |
| Cymorth Cyntaf | 42 | 25 | 27 | 41 | 26 |
| Mân Anafiadau | 25 | 39 | 11 | 26 | 29 |
| Anafiadau Difrifol | 8 | 2 | 6 | 4 | 3 |
| Marwolaeth | 4 | 1 | 5 | 3 | 5 |
| Cyfanswm | 128 | 99 | 62 | 93 | 96 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2020-21 | 26 | 15 | 24 | 26 | 91 | ↑ 1 |
| | 2019-20 | 32 | 14 | 23 | 21 | 90 | |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2020-21 | 3 | 0 | 1 | 1 | 5 | ↑ 2 |
| | 2019-20 | 1 | 0 | 2 | 0 | 3 | |

| Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|
| 82 | ↑ 9 |

## 9.0 Archwiliadau Diogel ac Iach


9.1 Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 11,334 o Archwiliadau Diogel ac Iach, ac roedd 3,908 (34.5%) o'r rheini i gartrefi a gafodd eu hatgyfeirio atom gan asiantaethau sy'n bartneriaid i ni. Cynhaliwyd 4,382 o archwiliadau risg uchel yn 2020/21 o gymharu â 5,734 yn y flwyddyn ariannol flaenorol, sef gostyngiad o 23.6%. Fe wnaeth nifer yr atgyfeiriadau yn y categori risg uchel ostwng i 1,987 yn 2020/21, o gymharu â 3,012 yn 2019/20 (34%). Fe wnaeth yr atgyfeiriadau risg canolog na chafodd eu hatgyfeirio atom gan asiantaeth ostwng 63.7%, sef o 4,730 yn 2019/20 i 1,719 yn ystod 2020/21.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % o'r Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd ac a oedd wedi'u hatgyfeirio gan sefydliad sy'n bartner i ni | 2020-21 | 30.4% | 36.7% | 35.9% | 35% | 36.4% | ➔ 0pc | 28% | ↑ 2pc |
| | 2019-20 | 28% | 31% | 27% | 36% | 30% | | | |
| Yn y golofn dde yn y tabl gellir gweld cymariaethau â'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd. | | | | | | | | | |

## 10.0 Larymau Mwg (Tanau Damweiniol mewn Cartrefi)

10.1 Gall larymau mwg/gwres ddarparu rhybudd cynnar o dân, ac roedd y rhain i'w cael yn y rhan fwyaf (85.8%) o danau damweiniol mewn cartrefi yn 2020/21; fe wnaeth nifer y prif danau damweiniol mewn cartrefi lle nad oedd larwm yno gynyddu i 51 o 43 (18.6%), o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Pan roedd larwm mwg/gwres yno ac wedi rhoi rhybudd, roedd nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt wedi gostwng o 176 yn 2019/20 i 165 yn 2020/21. Cafwyd cynnydd bach yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt lle roedd larwm mwg/gwres yno ac wedi seinio ond heb roi rhybudd a lle roedd larwm mwg/gwres yno ond heb seinio.



| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Blwyddyn Lawn | | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Larwm mwg yno ac wedi rhoi rhybudd | 2020-21 | 48 | 36 | 50 | 31 | 165 | ↓ 6.3% | 163 | ↑ 1.2% |
| | 2019-20 | 51 | 40 | 33 | 52 | 176 | | | |
| Larwm mwg heb seinio | 2020-21 | 22 | 21 | 20 | 16 | 79 | ↑ 5.3% | 82 | ↓ 3.7% |
| | 2019-20 | 16 | 27 | 15 | 17 | 75 | | | |
| Larwm mwg yno, wedi seinio ond heb roi rhybudd | 2020-21 | 18 | 15 | 13 | 19 | 65 | ↑ 3.2% | 62 | ↑ 4.8% |
| | 2019-20 | 21 | 12 | 18 | 12 | 63 | | | |
| Dim larwm mwg yno | 2020-21 | 16 | 11 | 13 | 11 | 51 | ↑ 18.6% | 49 | ↑ 4.1% |
| | 2019-20 | 10 | 9 | 16 | 8 | 43 | | | |
| Yn y golofn dde yn y tabl gellir gweld cymariaethau â'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd 3 blynedd. | | | | | | | | | |

*Aethpwyd at un tân mewn cartref yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 lle roedd dau fath o larwm i'w cael yno; mae'r cyfrif un yn fwy na chyfanswm y tanau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt.

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn cael ei roi o fewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simnai, ac sy'n digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, cyfarpar a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli ayyb.<br><br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion yno, os oes angen achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pump neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br><br>Fel arfer, tanau eilaidd yw tanau sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif danau), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau Simnai | Dyma danau mewn adeiladau sydd wedi'u meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br><br>Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>ch) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad yn bodoli neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Galwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – Didwyll | Galwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – larymau tân awtomatig | Galwadau a ddaw gan larymau tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn seinio trwy ddamwain neu pan fo larwm yn seinio a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Mehefin 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur (01745 535286)** |
| Pwnc | **Cynllun Archwilio 2021** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno, i'r Aelodau, gynllun archwilio 2021 ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel sydd yn atodiad 1.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r cynllun archwilio yn nodi gwaith arfaethedig Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn ogystal â'i ffi.

**ARGYMHELLIAD**

3 Gofynnir i'r Aelodau nodi'r wybodaeth sy'n cael ei darparu.

**CEFNDIR**

4 Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol Cymru gyfrifoldeb statudol i ymgymryd ag archwiliad a chyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Llywodraeth Leol 1999 a'r Cod Ymarfer Archwilio.

5 Yn y blynyddoedd a fu, ac yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'r Awdurdod wedi gorfod sefydlu trefniadau ar gyfer gwneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, a byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn asesu a yw'r Awdurdod yn debygol o fodloni (neu wedi bodloni) y gofynion hyn. Oherwydd newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2012, rhagwelir y bydd y Mesur hwn yn cael ei ddiddymu, ond ar gyfer blwyddyn 2020-21, bydd angen i'r Archwilydd archwilio'r asesiad o berfformiad a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod.

6 Hefyd, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni.

## GWYBODAETH

7 Mae'r Cynllun Archwilio yn atodiad 1 yn manylu ar y gwaith bydd Archwilio Cymru yn ei wneud gan gynnwys y gwaith canlynol:

- archwilio'r datganiadau ariannol, asesiad o b'un a yw Adroddiad Naratif yr Awdurdod a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael eu llunio yn unol â'r cyfarwyddyd perthnasol ai peidio, ac archwilio cyfrif cronfa'r Awdurdod ar gyfer Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

- archwilio'r gwaith perfformiad, gan gynnwys archwilio'r cynllun gwella, adolygiad gwerth am arian ac archwiliad ar waith yr Awdurdod ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu maes o law am y rhaglenni archwilio hyn.

8 £61,264 yw'r ffi a amcangyfrifir ac a nodir yn y cynllun archwilio. Fodd bynnag, os gwelir bod angen gwaith ychwanegol, mae'n bosibl y bydd ffi ychwanegol.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Hwyluso gwasanaethau tân ac achub mwy integredig sydd o ansawdd uchel ac yn ymatebol fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, ac hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg |
| Cyllideb | £61,264 o gost, ac mae darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer hynny. |
| Cyfreithiol | Bydd y gwaith a gynigir gan Archwilio Cymru yn golygu asesiad gwrthrychol o gydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth a'r codau a ganlyn.<br><br>Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<br>Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009<br>Deddf Llywodraeth Leol 1999<br>Cod Ymarfer Archwilio<br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| Staffio | Amser swyddogion Tân ac Achub a swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i weithio gyda Archwilio Cymru yn ystod yr archwiliadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Petai archwiliadau ariannol ddim yn cael eu cynnal, ni fyddai gwallau neu hepgoriadau yn y cyfrifon yn cael eu canfod a gallai rhanddeiliaid gael darlun camarweiniol o'r gwariant. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Mehefin 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch - Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch (01745 535286)** |
| Pwnc | **Datganiad Drafft o Gyfrifon 2020/21** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno'r drafft o'r Datganiad Drafft o Gyfrifon 2020/21 (y Cyfrifon) i'r Aelodau, a gofyn am ddirprwyo'r gwaith o gymeradwyo'r fersiwn archwiliedig terfynol i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2021.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2019, fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo cyllideb refeniw o £35.9m. Y sefyllfa alldro terfynol yw £0.06m o danwariant.

3 Fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo cyllideb gyfalaf o £4.1m ym mis Rhagfyr 2019. Cafodd hon ei hadolygu a'i diwygio i £0.1m gan yr Awdurdod ar 9 Tachwedd 2020. Fodd bynnag, cafwyd rhagor o oedi oherwydd Covid-19 a chafodd y cynllun cyfalaf ei ohirio tan 2021/22.

4 Mae'r Awdurdod yn clustnodi cronfeydd er mwyn cael arian wrth gefn ar gyfer digwyddiadau neu risgiau yn y dyfodol. Ar 31 Mawrth 2021, roedd cyfanswm o £3.46m ar gael mewn cronfeydd a glustnodwyd.

5 Ni chafodd unrhyw ddyledion drwg eu dileu yn 2020/21.

**ARGYMHELLION**

6 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi sefyllfaoedd yr alldro refeniw a chyfalaf drafft fel sydd yn Natganiad o Gyfrifon 2020/21;
(ii) dirprwyo'r gwaith o gymeradwyo Datganiad archwiliedig terfynol o Gyfrifon 2020/2021 i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2021; a
(iii) cymeradwyo'r cronfeydd a glustnodwyd; a
(iv) nodi na chafodd unrhyw ddyledion drwg eu dileu yn 2020/21.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

7 Nid yw'r aelodau wedi ystyried yr adroddiad o'r blaen.

**CEFNDIR**

8 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa'r alldro gwariant refeniw a chyfalaf drafft am flwyddyn ariannol 2020/21. Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb hefyd o'r eitemau allweddol ar y fantolen, gan gynnwys cynnal cronfeydd a glustnodwyd.

9 Nodir yn yr adroddiad pa grantiau a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn.

**GWYBODAETH**

**CYLLIDEB REFENIW**

10 Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa'r alldro refeniw terfynol am flwyddyn ariannol 2020/21. Mae'n nodi £0.063m o danwariant o'i gymharu â'r gyllideb o £35.942m, ac mae'n cynnwys y cyfraniadau i'r cronfeydd a glustnodwyd.

| | **Cyllideb 2020/21 £000** | **Alldro 2020/21 £000** | **Amrywiad 2020/21 £000** |
|---|---|---|---|
| Costau Gweithwyr | 27,069 | 25,198 | (1,871) |
| Safleoedd | 2,475 | 2,641 | 166 |
| Cludiant | 1,004 | 924 | (80) |
| Cyflenwadau a thaliadau trydydd partïon | 5,145 | 5,656 | 511 |
| Incwm | -2,587 | -2,666 | (79) |
| Taliadau Llog a Chyllid Cyfalaf | 2,836 | 2,484 | (352) |
| Trosglwyddiadau i/o'r Cronfeydd Wrth Gefn | 0 | 1,642 | 1,642 |
| **Cyfanswm y Refeniw** | **35,942** | **35,879** | **(63)** |

**Costau Gweithwyr**

11 Ym mlwyddyn ariannol 2020/21, £27.069m oedd y gyllideb ar gyfer gwariant ar weithwyr, sef 71% o'r gwariant. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, cafwyd oedi wrth recriwtio ac mae tanwariant yn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Ailddechreuwyd recriwtio, a chaiff hyn ei fonitro'n agos yn ystod 2021/22.

## Safleoedd

12 £2.475m oedd y gyllideb ar gyfer safleoedd, a'r alldro oedd £0.166m o orwariant. Cafwyd £0.021m o arbedion ar gyfleustodau, o gymharu â chostau'r llynedd. Mae'r gorwariant hwn yn cynnwys tâl ar gyfer ardrethi busnes yn deillio o ddiwygio prisiad wedi'i ôl-ddyddio a chostau angenrheidiol i sicrhau bod ein hadeiladau'n cydymffurfio'n llwyr â chanllawiau'r llywodraeth ynglŷn â phandemig Covid-19.

13 Cafwyd oedi ar nifer sylweddol o fân waith oherwydd Covid-19, felly mae £0.340m wedi'i gynnwys yn y gronfa a glustnodwyd er mwyn sicrhau bod cyllid ar gael i gwblhau'r gwaith.

## Cludiant

14 £0.924m oedd y gwariant ar gostau'n gysylltiedig â chludiant, ac mae hyn £0.080m yn is na'r gyllideb. Mae'r tanwariant hwn yn cynnwys gostyngiad mewn costau tanwydd (£0.131m) ar gyfer cerbydau nad ydynt yn rhai brys ac sy'n deillio o bandemig Covid-19. Roedd costau uwch ar gyfer atgyweirio yn gwrthbwyso hyn.

## Cyflenwadau a Thaliadau Trydydd Partïon

15 £5.656m oedd y gwariant ar gyflenwadau, sef £0.511m o orwariant o gymharu â'r gyllideb. Cafwyd buddsoddiad sylweddol mewn trwyddedau ac offer cyfrifiadurol i sicrhau bod staff yn gallu gweithio o gartref, a dechreuwyd ar welliannau mewn systemau TGCh er mwyn cefnogi gweithlu mwy ystwyth. Clustnodwyd £0.502m mewn cronfa i sicrhau bod cyllid ar gael i barhau â'r gwaith yma.

16 Cafwyd gwariant uwch hefyd ar gyfarpar amddiffyn personol o ganlyniad i bandemig Covid-19.

## Cyllido Cyfalaf

17 £2.836m oedd y gyllideb ar gyfer cyllido cyfalaf. Mae'r costau cyllido cyfalaf yn cynnwys y ffi ar y refeniw am ddibrisio a hefyd cost benthyca. Roedd y £0.352m o danwariant yn adlewyrchu gostyngiad yn y cyfraddau llog, yn ogystal â gostyngiad yn yr angen i fenthyca.

## Incwm

18 £0.378m oedd y gyllideb incwm. £0.607m oedd yr incwm (ac eithrio grantiau). Mae'r cynnydd yn yr incwm wedi digwydd oherwydd hawliadau a gyflwynwyd i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru am adfer costau staff, ynghyd ag arian a hawliwyd o Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru ar gyfer Covid-19 yn ystod 2020/21.

**Arian Grantiau Refeniw**

19 Dyma ddadansoddiad o'r arian grant a ddaeth i law yn 2020/21.

| | Dyraniad £000 | Gwirioneddol £000 |
|---|---|---|
| Lleihau Llosgi Bwriadol | 157 | 157 |
| Archwiliadau Diogel ac Iach | 223 | 136 |
| Y Ffenics | 148 | 162 |
| Cymru Gydnerth | 154 | 143 |
| Cyfraniadau Pensiwn y Diffoddwyr Tân | 1,111 | 1,103 |
| Firelink | 416 | 416 |
| Hyfforddiant Seiber | 0 | 3 |
| Gofyn a Gweithredu | 0 | 1 |
| **Cyfanswm yr Arian Grant** | **2,209** | **2,121** |

20 Er bod cyfyngiadau Covid-10 wedi effeithio ar nifer o weithgareddau sy'n cael eu hariannu drwy grantiau, cymerwyd camau sylweddol i ddatblygu gweithgareddau o bell ac i addasu'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu.

**RHAGLEN GYFALAF**

21 Fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo rhaglen gyfalaf a oedd yn werth £4.1m. Cafodd y rhaglen gyfalaf ei hadolygu yn ystod y flwyddyn i roi ystyriaeth i'r cyfyngiadau oherwydd pandemig Covid-19. Er y rhagwelid i ddechrau y gellid bod wedi cwblhau ambell ddarn o waith yn ail hanner y flwyddyn, nid oedd hyn yn bosibl oherwydd rhagor o fesurau cloi. Felly, ni wnaethpwyd unrhyw wariant cyfalaf yn ystod 2020/21.

22 Mae prosiectau sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu a pheiriannau tân a gafodd eu gohirio oherwydd pandemig Covid-19 wedi cael eu haildrefnu ar gyfer 2021/22.

23 Cafwyd oedi ar rai cynlluniau TGCh gan fod gwaith y tîm TGCh wedi cael ei ail-flaenoriaethu er mwyn rheoli'r newid i weithio o bell. Mae rhai cynlluniau eraill wrthi'n cael eu hadolygu, a rhagwelir y bydd pob cynllun a ohiriwyd yn dechrau yn 2021/22.

**Y FANTOLEN**

24 Mae'r Fantolen yn darparu rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol hirdymor yr Awdurdod, ac mae'n cynnwys asedau a rhwymedigaethau.

## Asedau Sefydlog a Benthyciadau

25 Asedau sefydlog yw eitemau sy'n costio mwy na £5,000 ac y mae disgwyl iddynt gael eu defnyddio dros gyfnod mwy na 12 mis. Mae asedau sefydlog yr Awdurdod yn cynnwys tir ac adeiladau, cerbydau, cyfarpar gweithredol ac offer a chostau meddalwedd TGCh. Amcangyfrifir mai £40.6m yw'r gwerth ar 31 Mawrth 2021 (2019/20: £45.9m).

26 Cafodd yr holl dir ac adeiladau eu hailbrisio yn 2020/21, ac arweiniodd hyn at brisiad is, sef £2.21m. Tir ac adeiladau'r Awdurdod yw 78% o'r holl asedau, a'r gwerth llyfr net yw £31.6m ar 31 Mawrth 2021.

27 Mae gan yr Awdurdod hawl i gael trefniadau benthyca i brynu asedau sefydlog. Ar 31 Mawrth 2021, £26.2m oedd gwerth y benthyciadau (2019/20: £30.9m). Mae'r costau cyllido cyfalaf yn y sefyllfa refeniw yn cynnwys £0.380 yn gysylltiedig â thaliadau llog ar fenthyciadau.

## Asedau Cyfredol a Rhwymedigaethau Cyfredol

28 Rhaid i'r Awdurdod gynnal adnoddau digonol i sicrhau ei fod yn gallu cwrdd â'i rwymedigaethau. Mae'n gwneud hyn drwy reoli arian parod ochr yn ochr â balansau dyledwyr a chredydwyr. Ar ddyddiad y fantolen, roedd yr Awdurdod wedi cofnodi balans o £6.3m ar gyfer arian parod a dyledwyr. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan £5.5m o symiau sy'n ddyledus gan yr Awdurdod i gredydwyr.

## Rhwymedigaethau Pensiwn

29 Rhaid i'r Awdurdod roi cyfrif am y rhwymedigaethau a amcangyfrifir mewn perthynas â'i gynlluniau pensiwn. Mae gan yr Awdurdod ddau gynllun, sef Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae gwerth y rhwymedigaethau ar gyfer y dyfodol yn cael ei gyfrifo gan yr actiwari ar gyfer pob cynllun, ac amcangyfrif ar 31 Mawrth 2021 y bydd yn £337.3m (2017/18: £312.1m). Mae'r prisiad hwn yn cynnwys yr asesiad actiwaraidd o gostau heriau cyfreithiol cenedlaethol, gan gynnwys dyfarniad McCloud sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail oedran yng nghynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus.

## Cronfeydd Defnyddiadwy

30 Roedd cronfeydd yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2021 yn £4.91m. Mae hyn yn cynnwys £3.46m o gronfeydd a glustnodwyd, a £1.45m o gronfeydd cyffredinol.

31 Cronfa a glustnodwyd yw cronfa sy'n cael ei chreu ar gyfer eitemau penodol sy'n hysbys ar ddyddiad y fantolen ac a allai greu rhwymedigaeth yn y dyfodol. Mae manylion cronfeydd a glustnodwyd gan yr Awdurdod i'w gweld yn y tabl isod.

| Cronfa | Gwerth ar 1 Ebrill 2020 £000 | Trosglwydd-adau £000 | Gwerth ar 31 Mawrth 2021 £000 | Pwrpas y Gronfa |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa bensiwn | 85 | 0 | 85 | Dyma gronfa hirdymor a sefydlwyd i liniaru effaith costau annisgwyl yn gysylltiedig â'r cynlluniau pensiwn yn ystod y flwyddyn. |
| Cynllun Radio | 300 | 200 | 500 | Mae'r Awdurdod yn cael arian grant i gefnogi'r rhwydwaith cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth brys oherwydd mae rhwydwaith newydd wrthi'n cael ei gaffael. Sefydlwyd y gronfa i liniaru'r risg y byddai costau ychwanegol yn ystod y cyfnod caffael. |
| Lleihau Grant Diogelwch Tân | 195 | 0 | 195 | Mae'r Awdurdod yn gwneud gwariant refeniw sy'n £1.0m ac yn cael ei ariannu drwy grantiau gan Lywodraeth Cymru. Cytunir ar y rhain bob blwyddyn, ac mae'r gronfa ar gael i fynd i'r afael â chostau byrdymor sy'n digwydd oherwydd gostyngiadau yn yr arian grant. |
| Cronfa Llog | 100 | 0 | 100 | Sefydlwyd y gronfa hon i liniaru effaith amrywiadau yn y cyfraddau llog. |
| Atgyweirio Hydrantau Tân | 90 | 0 | 90 | I dalu am waith cynnal a chadw sydd wedi cronni. |
| Hyfforddiant | 100 | 0 | 100 | I weithredu gofynion deddfwriaethol yn ymwneud â hyfforddi gyrwyr cerbydau brys ac argymhellion a ddisgwylir yn y dyfodol yn dilyn yr ymchwiliad cyhoeddus i Grenfell. |
| Cronfa Gyfreithiol | 200 | 0 | 200 | Swm a neilltuwyd i ddarparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| Gwelliannau i'r Gwasanaeth | 350 | 450 | 800 | I ariannu costau ar gyfer darparu newid trawsffurfiannol a gwelliannau i'r gwasanaeth. |
| Gwelliannau i Gyfleusterau | 150 | 340 | 490 | I sicrhau bod adeiladau'n cwrdd â'r safonau gofynnol ac yn gwella effeithlonrwydd ynni. |

| Cronfa | Gwerth ar 1 Ebrill 2020 £000 | Trosglwydd-adau £000 | Gwerth ar 31 Mawrth 2021 £000 | Pwrpas y Gronfa |
|---|---|---|---|---|
| Stoc | 250 | 0 | 250 | I ariannu rhan o'r costau o gael cit amddiffyn personol newydd. |
| Digwyddiad-au Mawr | 0 | 150 | 150 | 2020/21: ariannu costau ychwanegol ar gyfer digwyddiadau mawr yn y dyfodol. |
| Gwelliannau i Systemau | 0 | 502 | 502 | 2020/21: Arweiniodd Covid-19 at oedi mewn gwaith i ddiweddaru systemau TG, a sefydlwyd cronfeydd wrth gefn i sicrhau bod cyllid ar gael i'w orffen. |
| **Cyfanswm** | **1,820** | **1,642** | **3,462** | **Cynnydd mewn Cronfeydd Wrth Gefn** |

**DYLEDION DRWG**

32 Cafodd adolygiad o'r balansau sy'n ddyledus i'r Awdurdod ei gynnal ar ddiwedd y flwyddyn. Ystyrir bod modd adfer pob swm, ac nid oedd angen dileu unrhyw ddyledion drwg yn ystod 2020/21.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ag amcanion llesiant hirdymor ATAGC. Mae arian ar gyfer y Gwasanaeth yn rhywbeth sydd o fudd i gymunedau Gogledd Cymru, ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad mewn seilwaith i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu darparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod bob blwyddyn yn unol â'r gwasanaethau arfaethedig, sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol. |
| **Cyfreithiol** | Mae gofyn cyfreithiol i'r Awdurdod lunio'r Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r safonau a ragnodwyd. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n agos i sicrhau bod unrhyw achos o wyro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael ei nodi'n gywir a'i adrodd i'r Aelodau. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Mehefin 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur,**<br>**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard, Pennaeth Cyllid**<br>**(01745 535286)** |
| Pwnc | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2020/21 i'r Aelodau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Fframwaith CIPFA/*Solace Delivering Good Governance in Local Government Framework* (2016) (y Fframwaith) yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2020/21 ar gael yn Atodiad 1 ac mae wedi cael ei baratoi yn unol â'r egwyddorion sydd wedi eu nodi yn y Fframwaith. Mae'r blaenraglen waith ar gyfer 2021/22 wedi ei chynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.

4 Cyhoeddir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel rhan o'r datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2020/21. Caiff ei asesu gan yr archwiliwr allanol i gadarnhau ei fod yn gyson â'r datganiadau ariannol ac wedi ei lunio yn unol â'r Fframwaith.

**ARGYMHELLION**

5 Gofynnir i'r Aelodau
- (i) nodi'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2020/21;
- (ii) nodi'r blaenraglen waith ar gyfer 2021/22;
- (iii) cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2020/21.

## SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL

6 Cafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2020/21 ei adolygu gan y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 10 Mai 2021. Fe wnaeth y Panel nodi'r cynnwys ac argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

## CEFNDIR

7 Ers 2010/11 mae wedi bod yn ofynnol i bob corff llywodraethu lleol, o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015, baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w gyhoeddi fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.

8 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw asesu a dangos bod system llywodraethu corfforaethol gadarn ar waith ledled y sefydliad.

## GWYBODAETH

9 Yn 2016, fe gyhoeddodd CIPFA a Solace fframwaith lywodraethu newydd, Developing Good Governance in Local Government: Framework (y Fframwaith). Mae'r Fframwaith wedi'i drefnu o gwmpas saith o egwyddorion llywodraethu, sy'n galluogi'r Awdurdod i ddangos ei drefniadau cyffredinol a nodi sut mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

10 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw nodi trefniadau'r Awdurdod i sicrhau'r canlynol:

- (i) ei fod yn cynnal ei fusnes yn unol â'r holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol;
- (ii) bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo'n gywir; a
- (iii) bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol i gyflawni'r blaenoriaethau cytunedig er budd pobl leol.

11 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2020/21 ar gael yn Atodiad 1. Mae'n rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethu ac yn cadarnhau'r cynllun gwaith ar gyfer 2021/22.

12 Caiff y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei adolygu gan Archwilio Cymru i gadarnhau ei fod yn gyson â'i wybodaeth am yr Awdurdod a'i drefniadau ariannol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad yn gysylltiedig ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC ac mae'n dangos fod ganddo drefniadau llywodraethu ar waith i alluogi'r Gwasanaeth i ddarparu ymateb brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Y Gyllideb** | Amherthnasol |
| **Cyfreithiol** | Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei baratoi yn unol â'r safonau penodedig. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Mae fframwaith lywodraethu cadarn yn cefnogi trefniadau rheoli risg yr Awdurdod. |

## Fframwaith Darparu Llywodraethiant Da

Mae Fframwaith CIPFA/Solace ar Ddarparu Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol (2016) (y Fframwaith) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ac i fod yn gyfrifol am sicrhau bod:


- busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol;
- arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod cyfrif priodol amdano; a bod
- adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol er mwyn cyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ac sydd o fydd i bobl yr ardal.

Er mwyn cyflawni ei amrediad eang o swyddogaethau, rhaid i'r Awdurdod fodloni amrywiaeth o amcanion gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol dros y tymor byr, canolig a hir. Mae hyn yn golygu ei fod yn agored i gyfres o gyfyngiadau a chymhellion allanol a mewnol sy'n wahanol i rai yn y sector preifat, ac mae pob un yn effeithio ar ei drefniadau llywodraethu. Un darn allweddol o ddeddfwriaeth yng Nghymru yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n mynnu bod yr Awdurdod yn ystyried y tymor hir wrth wneud ei benderfyniadau a'i fod yn gweithio ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill i wella llesiant yng Nghymru.

Felly, mae gan randdeiliaid ddiddordeb mewn materion fel:

- a yw allbynnau arfaethedig yr Awdurdod wedi cael eu cyflawni a'r canlyniadau wedi digwydd; ac
- a yw hyn wedi cael ei wneud mewn ffordd effeithlon, economaidd a theg.

Nodir isod yr egwyddorion craidd sy'n sail i fframwaith CIPFA/Solace. Mae'r tudalennau canlynol yn nodi sut mae'r Gwasanaeth yn cwrdd â'r egwyddorion hyn.



## Crynodeb: Trefniadau Llywodraethu

Rhaid i'r Awdurdod adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau bob blwyddyn i sicrhau bod ganddo system gadarn ar gyfer llywodraethu. Mae crynodeb o'r pethau sy'n cyfrannu'n allweddol i'r broses hon ar gael ar dudalen 10, ac maent yn cynnwys:

- Mynd ati'n rheolaidd i adolygu effeithiolrwydd Cyfansoddiad yr Awdurdod.
- Cael Awdurdod a strwythur pwyllgorau sy'n:
    - monitro effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg;
    - mynd ati'n rheolaidd i adolygu'r trefniadau llywodraethu;
    - ystyried ac adolygu strategaethau, cynlluniau ac adroddiadau archwilio mewnol ac allanol; ac
    - adolygu, craffu a chymeradwyo'r datganiad blynyddol o gyfrifon.
- Cael Grŵp Gweithredol sy'n:
    - darparu arweiniad ar lywodraethu;
    - cyfrannu at gwblhau ac adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol; ac yn
    - darparu cyfarwyddyd clir i'r Gwasanaeth a'r uwch reolwyr.
- Defnyddio gwybodaeth o wahanol ffynonellau i oleuo'r trefniadau llywodraethu, er enghraifft:
    - adroddiadau perfformiad;
    - trefniadau rheoli risg;
    - adroddiadau rheoleiddiwr allanol; a'r
    - Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol.

Ar dudalennau 5 – 11, nodir y llwyddiannau mewn perthynas â'r egwyddorion craidd. Mae'r camau gwella y mae'r Awdurdod wedi cytuno arnynt ar gyfer 2020/21 i'w gweld ar dudalen 13, lle cadarnheir y cynnydd a wnaed.

**Effaith Covid-19 ar Lywodraethiant**

Trwy gydol pandemig y coronafeirws mae'r Awdurdod wedi cynnal ei ymateb brys ledled Gogledd Cymru, gan roi'r mesurau angenrheidiol ar waith i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â Covid-19 a chynnal iechyd, diogelwch a lles ein staff a'r cymunedau yr ydym ni'n eu gwasanaethu.

Er ein bod wedi llwyddo i barhau i ddarparu ymateb brys, mae'r sefyllfa wedi effeithio ar 'fusnes fel arfer' yn achos darparu gwasanaethau difrys. Lle bo modd, mae modelau eraill wedi cael eu rhoi ar waith i'n galluogi i barhau i ddarparu ein gwasanaethau.

Hefyd, mae staff wedi derbyn hyfforddiant er mwyn cael eu secondio i gynorthwyo Gwasanaeth Ambiwlans Cymru drwy yrru ambiwlansys ac maent hefyd wedi helpu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda'r rhaglen frechu Covid-19. Bydd Covid-19 yn dal i effeithio ar drefniadau llywodraethu'r Awdurdod fel y crynhoir isod:

• Effeithio ar gyflenwi gwasanaethau busnes fel arfer;

• Meysydd gwaith newydd fel rhan o'r ymateb genedlaethol i'r pandemig ac unrhyw faterion a gyfyd o ran llywodraethiant;

 Ariannu'r goblygiadau ariannol a chanlyniadau logistaidd o ganlyniad i gyflenwi'r ymateb brys llywodraeth leol; ac

• Asesu'r goblygiadau tymor hir a fydd yn deillio o'r pandemig a datblygu modelau gwaith cynaliadwy ar gyfer yn y dyfodol.

Mae hyn yn dal i gael ei fonitro'n agos yn cynnwys adolygu'r camau sy'n llywio'n hymateb parhaus a'n parodrwydd rhag achosion pellach.

Cafodd nifer o gyfarfodydd eu canslo yn ystod y cyfnod clo a threfnwyd bod penderfyniadau'r aelodau'n cael eu gwneud dros e-bost.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) 2020. Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth dros dro tan 1 Mai 2021, mewn perthynas â chyfarfodydd yr awdurdod tân ac achub, a rhoi mynediad i'r wasg a'r cyhoedd i'r cyfarfodydd hyn yn ystod yr argyfwng COVID-19. Wrth symud ymlaen cynhelir cyfarfodydd o bell tra bydd trefniadau cadw pellter cymdeithasol ar waith.

Yn ystod y clo cafod trefniadau llywodraethu dros dro eu cymeradwyo er mwyn sicrhau bod penderfyniadau hanfodol yn dal i gael eu gwneud, yn cynnwys:

1 Cafodd y cyfarfod blynyddol a'r cyfarfodydd busnes a phwyllgor a oedd wedi eu trefnu hyd at Ragfyr 2020 eu disodli gan un cyfarfod o'r Awdurdod llawn a gynhaliwyd drwy gyswllt fideo ar 9 Tachwedd 2020;

2 Yn ystod y cyfarfod ym mis Tachwedd neilltuwyd rhan o'r agenda ar gyfer ymdrin â'r materion y byddai'r Awdurdod fel arfer wedi ymdrin â hwy yn ystod ei gyfarfod blynyddol, yn cynnwys ethol Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd ar gyfer yr Awdurdod a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer y cyfnod hyd at y cyfarfod blynyddol nesaf ym mis Mehefin 2021.

3 O fis Medi 2020 ymlaen, cynhaliwyd sesiynau anffurfiol, caeedig ar gyfer yr holl Aelodau er mwyn i swyddogion rannu gwybodaeth a thrafod materion allweddol gyda hwy cyn y cyfarfod ym mis Tachwedd 2020. Roedd y sesiynau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar lunio blaenoriaethau gwella'r Awdurdod a gosod y gyllideb ar gyfer 2021/22; a

4 Mae'r Panel Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a'r Awdurdod bellach yn cwrdd ar-lein. Mae'r cyfarfodydd hyn yn debygol o barhau yn ystod 2021/22.

**Camau gweithredu ar gyfer 2021/22 a threfniadau monitro**

Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer 2021/22 wedi'i nodi yn Atodiad A. Bydd yn cael ei fonitro bob chwarter gan y Grŵp Gweithredol.

## Egwyddorion Craidd

**Ymddwyn gydag uniondeb gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith**

- Mae'r Cyfansoddiad yn nodi cyfrifoldebau'r Awdurdod Tân ac Achub a'i bwyllgorau, ac mae'n cynnwys y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion.
- Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau bod y penderfyniadau'n cael eu gwneud o fewn y gyfraith a'u bod yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cyfansoddiad.
- Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys Cod Ymddygiad yr Aelodau, ac mae hwnnw'n cael ei fonitro gan y Pwyllgor Safonau.
- Pan fo angen, ceir cyngor cyfreithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- Mae Codau Ymddygiad ar gael ar gyfer yr Aelodau a'r Swyddogion, sy'n mynnu eu bod yn datgan buddiannau busnes ac yn cofnodi derbyn rhoddion a/neu letygarwch.
- Mae gan yr Awdurdod drefn ar gyfer derbyn ac ymateb i unrhyw gwynion. Mae adroddiad cryno o'r cwynion a'r negeseuon o werthfawrogiad yn cael ei roi i'r Awdurdod Tân ac Achub bob blwyddyn.
- Mae polisïau allweddol ar gael i atal a lleihau'r perygl o dwyll. Mae'r polisïau'n cynnwys: Polisi Chwythu'r Chwiban, Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd a Rheoliadau Ariannol a Rheolau Gweithdrefnau Contractau. Pan amheuir bod anghysonder, mae trefniadau ar gael i sicrhau bod ymchwiliad trylwyr i hynny.
- Mae'r polisi recriwtio, y cyfnod cynefino a'r prosesau hyfforddi yn ymgorffori ymddygiadau personol a gwerthoedd moesegol. Mae gwerthoedd craidd y Gwasanaeth wedi'u gwreiddio'n llwyr, ac maent yn cynnwys: gwasanaeth i'r gymuned, pobl, amrywiaeth a gwella.
- Meddu ar wobrau Iechyd Corfforaethol Efydd a Phlatinwm Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Mae Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol yn ystyried materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a materion diwylliannol. Mae'r Grŵp wedi adolygu a diweddau ein gwerthoedd craidd yn 2019/20 i adlewyrchu ein ffyrdd modern a phroffesiynol o weithio - gwerthoedd craidd.
- Ymchwilir yn unol â Llawlyfr Disgyblu'r Gwasanaeth i achosion disgyblu ac unrhyw honiadau o ddrwgweithredu.
- Cyhoeddir Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Caiff yr amcanion cydraddoldeb eu hadolygu'n flynyddol, a'u monitro drwy gydol y flwyddyn.
- Fel rhan o'n hymrwymiad i'r Gymraeg, rhaid i bob aelod newydd o'r staff gael sgiliau Cymraeg ar Lefel 2 o leiaf.
- Mae'r Cynllun Gwella a Llesiant yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae hwn yn nodi'r amcanion gwella fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Mae gweithdrefnau diogelu yn eu lle i gyfeirio pobl fregus y daw'r Gwasanaeth i gysylltiad â hwy at asiantaethau eraill.

## Egwyddorion Craidd

**Bod yn agored ac ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid**

- Caiff pob cyfarfod ei hysbysebu, ac maent yn agored i'r cyhoedd. Mae cyfarfodydd yr Awdurdod llawn yn cael eu gweddarlledu. Mae agendâu a phapurau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- Mae gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod fel rhan o'r cynllun cyhoeddi. Darperir fersiynau hawdd i'w darllen/fersiynau siarad a darllen a fersiynau Cymraeg.
- Mae trefniadau ar waith i ymgynghori â'r cyhoedd i wahodd barn rhanddeiliaid cyn datblygu a gweithredu newidiadau allweddol. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar y Cynllun Gwella a Llesiant.
- Mae'r canlynol yn dangos bod ymrwymiad i fod yn agored:
  - cynnal asesiadau effaith ar gyfer pob penderfyniad allweddol;
  - y Strategaeth Ymgysylltu ag Ymgynghori â'r Cyhoedd (a gyflwynwyd i gyfarfod y Panel Gweithredol ym mis Gorffennaf 2018)
  - ymgysylltu â Chyrff Cynrychioli'r Gweithwyr;
  - aelodaeth o Grŵp Cydraddoldeb Gogledd Cymru.
- Defnyddir amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu, gan gynnwys:
  - Cyfathrebu'n uniongyrchol drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gyda chyfrifon ar Facebook a Twitter. Y gallu i gofrestru ar y wefan i dderbyn diweddariadau ebost ar faterion penodol.
  - Ymgysylltu â phobl ifanc drwy raglen y Ffenics ac ymweliadau ag ysgolion;
  - Diogelwch Cymunedol gyda phreswylwyr a busnesau;
  - Digwyddiadau Gweithredu Positif a mynychu digwyddiadau *park run* i recriwtio diffoddwyr tân (wedi eu gohirio ar hyn o bryd oherwydd y pandemig COVID-19);
  - Mynd i ddiwrnodau agored/digwyddiadau (wedi eu gohirio ar hyn o bryd oherwydd y pandemig COVID-19) – er enghraifft yr Eisteddfod.
  - Cyfathrebu'n fewnol drwy'r Crynodeb Wythnosol a chylchlythyr Y Fflam;
  - Cymryd rhan yn Grŵp Rhybuddio a Hysbysu'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, gan gynnwys cytundeb i aildrydar negeseuon i gyrraedd cynulleidfa ehangach.
  - Ymgyrchoedd cyfathrebu cyhoeddus, dan arweiniad y Rheolwyr Diogelwch Cymunedol.
- Mae cytundebau partneriaeth ar gael i sicrhau rhai canlyniadau. Er enghraifft, mae Prif Swyddogion yn mynychu'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Y mae hefyd yn cymryd rhan ym Mwrdd Cydweithredu'r Gwasanaethau Brys ac yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ac ymarferion ar y cyd.

# Egwyddorion Craidd

**Diffinio'r canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynhaliadwy**

- Mae'r Cynllun Gwella a Llesiant yn nodi cyfeiriad strategol yr Awdurdod, ac mae'n nodi'r amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a'r amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Mae'r Gwasanaeth wedi diwygio ei bedwar gwerth craidd - Pobl, Amrywiaeth a Gwelliant, Anelu at Ragoriaeth a Gwasanaethau i'r Gymuned. Mae'r rhain yn crynhoi'r egwyddorion a'r gwerthoedd personol y mae'r staff yn cael eu hannog i'w mabwysiadu a'u harddangos.
- Mae'r Gwasanaeth wedi ennill achrediad Rhuban Gwyn sydd yn dangos ei ymrwymiad i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod.
- Mae dyletswydd statudol ar y Gwasanaeth i gael trefniadau parhad busnes. Mae cynlluniau wedi cael eu diweddaru ymhob rhan o'r Gwasanaeth, ynghyd â pholisi, gweithdrefnau a chanllawiau. Mae cydweithio'n digwydd â'r gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru i wella'r gwaith cynllunio ac i ystyried y risgiau cyfredol. Mae'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn cynnwys ffrwd waith ar barhad busnes.
- Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, a phroses flynyddol y gyllideb, yn sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu cyfeirio at flaenoriaethau'r Awdurdod.
- Mae gwaith mewn partneriaeth yn digwydd pan fo amcanion cyffredin a manteision o gydweithio - er enghraifft Bwrdd Strategol Lleihau Llosgi Bwriadol, Byrddau Gwasanaethau Lleol.
- Mae'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol yn nodi'r broses i ganfod a rheoli'r modd mae'n agored i ansicrwydd, a allai effeithio ar gyflawni amcanion neu weithgareddau. Caiff y polisi ei adolygu drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod risgiau'n cael eu canfod a'i hasesu'n briodol. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cofnodi'r risgiau hyn, maent yn cael eu monitro'n rheolaidd gan yr adran Cynllunio Corfforaethol ac adroddir yn eu cylch i'r Panel Gweithredol.
- Mae penderfyniadau allweddol yn agored i asesiad effaith integredig, sy'n ystyried cydraddoldeb, amddiffyn, iechyd, diogelwch a llesiant, y Gymraeg, cyllid, cynaliadwyedd a staffio, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Mae gweithdrefnau diogelu yn eu lle i gyfeirio pobl fregus y daw'r Gwasanaeth i gysylltiad â hwy at asiantaethau eraill.

## Egwyddorion Craidd

**Penderfynu pa ymyriadau sydd eu hangen i gael y canlyniadau a fwriedir**

- Ymgynghorir â'r cyhoedd fel rhan o'r gwaith o osod amcanion blynyddol yr Awdurdod, sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gwella a Llesiant. Mae'r Cynllun amlinellu sut mae'r Awdurdod yn bwriadu gweithio â chyrff cyhoeddus eraill i fynd i'r afael â'r materion cymhleth sy'n effeithio ar fywydau pobl. Caiff Asesiad o berfformiad yr Awdurdod ei lunio ym mis Hydref bob blwyddyn, a chaiff ei gyhoeddi.
- Mae Polisi Rheoli Risgiau Strategol yr Awdurdod yn nodi'r broses a ddefnyddir i ganfod a rheoli'r modd mae'n agored i ansicrwydd, a allai effeithio ar gyflawni'r amcanion neu'r gweithgareddau. Caiff y polisi ei adolygu drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.
- Ar ôl i uwch reolwyr graffu arnynt, mae'r adroddiadau perfformiad ac ariannol yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod a'i bwyllgorau. Cynhelir cyfarfodydd atebolrwydd yn rheolaidd gyda'r holl uwch reolwyr i adolygu amcanion a rheolaeth ar y gyllideb.
- Monitro argaeledd, y gweithlu a chyllidebau i wneud yn siŵr bod ymyraethau yn cael eu rhoi ar waith pan fo angen. Trafodir materion gyda Thîm Ymgynghorol y Prif Swyddogion Tân ac yng nghyfarfodydd yr uwch reolwyr.
- Mae Cyfarwyddyd Gweithredol Cenedlaethol ar gael ac mae fforwm dysgu weithredol yn rheoli a gweithredu unrhyw newidiadau.
- Mae llawer o waith yn digwydd mewn partneriaeth ledled Cymru i ymateb i faterion sy'n wynebu'r sector tân a materion mwy cyffredinol yn y sector cyhoeddus. Mae cydweithio ag asiantaethau lluosog yn elfen bwysig o waith yr Awdurdod, gan gynnwys atal ac amddiffyn, ymateb i ddigwyddiadau, a defnyddio adnoddau.
- Mae'r prosesau ar gyfer cynllunio'r gyllideb yn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu paratoi yn unol ag amcanion, strategaethau a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae hyn yn cael mewnbwn gan arweinwyr y Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod. Mae'n dangos sut bydd adnoddau'n cael eu defnyddio dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i sicrhau canlyniadau y cytunwyd arnynt a blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

## Egwyddorion Craidd

**Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan ohono**

- Mae Cyfansoddiad yr Awdurdod yn amlinellu rolau aelodau etholedig a swyddogion dynodedig er mwyn gallu deall rolau ac amcanion ei gilydd. Mae'r swyddi dynodedig yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Trysorydd a'r Swyddog Monitro.
- Mae gwaith cydweithredol a gwaith mewn partneriaeth yn digwydd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Er enghraifft, mae'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru yn rhan o'r Fforwm Ymchwilio i Achos Tanau Cymru gyfan. Mae hyn yn cefnogi dysgu ar y cyd ac yn hyrwyddo dull cyson ledled Cymru.
- Mae'r Strategaeth Datblygu Pobl a Threfniadaeth Cymru gyfan 2018-2021 yn sail i'r ymrwymiad i ddysgu gydol oes ac i gymhwysedd yn y gweithle.
- Mae prosesau cynefino ar gael i Aelodau a gweithwyr cyflogedig. Mae'r rhain y cynnwys cyflwyniad i werthoedd craidd y sefydliad, y safonau ymddygiad a gofynion y swydd.
- Gwelir anghenion datblygu'r gweithwyr drwy gyfarfodydd un-i-un, goruchwyliaeth ac arfarnu. Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu rhaglen arweinwyr y dyfodol i staff sydd eisoes yn gyflogedig ac y mae wedi datblygu rhaglen brentisiaeth ar gyfer arweinwyr y dyfodol, a gychwynnodd yn Ebrill 2021, ar y cyd â Chwith Coleg Llandrillo.
- Mae iechyd a lles y gweithlu yn allweddol i'r sefydliad, a rhoddir cymorth i gynnal lles corfforol a meddyliol. Gwneir hyn drwy amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys polisïau a chymorth gan Adnoddau Dynol, gwaith hyblyg, Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol a rhaglen cefnogi cydweithwyr.
- Mae gan y Gwasanaeth adran hyfforddi bwrpasol, gyda fframweithiau cymhwysedd ar gyfer staff yr ochr weithredol. Rhoddir hyfforddiant drwy amryw o ddulliau, gan gynnwys modiwlau e-ddysgu sy'n orfodol ar gyfer rhai pynciau, e.e. Diogelu Data.
- Mae trefniadau ar gael ar gyfer adolygiadau mewnol o gydymffurfiaeth â safonau'r Gwasanaeth a'r gofynion iechyd a diogelwch.
- Mae staff yn perthyn i gyrff proffesiynol perthnasol ac yn parhau i ddatblygu'n broffesiynol.

# Egwyddorion Craidd

**Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref**

- Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol yr Awdurdod yn briodol, fel sy'n ofynnol dan Adran 151 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
- Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau a sefydlwyd.
- Mae'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol yn nodi'r broses ar gyfer canfod a rheoli risgiau. Mae cofrestr risgiau corfforaethol ar gael, ac mae'n cael ei monitro drwy gydol y flwyddyn.
- Mae adroddiadau i'r Awdurdod a'i bwyllgorau yn cynnwys asesiad effaith integredig i oleuo a chefnogi penderfyniadau.
- Mae trefniadau Parhad Busnes ar gael i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn gallu parhau i gael eu darparu drwy'r amser.
- Mae trefniadau rheoli yn sicrhau bod argymhellion ar gyfer gwella, a wneir gan yr Archwilydd Allanol, yn cael eu cytuno a'u monitro.
- Mae'r Aelodau a'r uwch reolwyr yn cael adroddiadau rheolaidd am berfformiad y gwasanaeth mewn perthynas â dangosyddion perfformiad ariannol a cherrig milltir.
- Mae gan yr Awdurdod drefniadau i gadw cofrestrau o fuddiannau personol a busnes yr Aelodau, a chofrestr o roddion a lletygarwch.
- Mae polisïau Gwrth-dwyll a Llygredd a Chwythu'r Chwiban ar gael i gadarnhau bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i weithredu mewn modd teg a thryloyw.
- Mae polisïau a threfniadau ar gael i reoli'r ffordd o ddelio â data. Y rhai yw'r Polisi Diogelu Data, y Polisi Rhyddid Gwybodaeth, y Polisi Cadw Data, a'r Polisi Diogelwch Cyfathrebu a Gwybodaeth. Mae hyfforddiant yn ategu'r polisïau hyn, ac mae modiwl e-ddysgu ar ddiogelu data yn orfodol i'r holl staff.
- Mae protocolau cadarn ar rannu gwybodaeth wedi cael eu datblygu, a chytunwyd arnynt â phartneriaid.
- Mae rheolaeth ariannol gadarn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a'r newid trawsffurfiadol, yn ogystal ag yn sicrhau stiwardiaeth dda. Rhoddir yr wybodaeth ariannol ddiweddaraf ymhob cyfarfod o'r Awdurdod, ac mae adroddiadau ar gael i'r cyhoedd ar y wefan.
- Mae trefniadau rheoli'r Trysorlys yn dilyn arferion proffesiynol ac maent yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan yr aelodau.
- Mae Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn destun craffu gan archwilwyr allanol.

## Egwyddorion Craidd

**Gweithredu arferion da o ran trylowyder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol**

- Mae'r Awdurdod Tân ac Achub, gyda chymorth gan y Swyddog Monitro, yn goruchwylio ac yn adolygu pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r trefniadau llywodraethu a'r amgylchedd rheoli mewnol.
- Mae agendâu a chofnodion cyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd ar y rhyngrwyd, ynghyd â gweddarllediadau o'r cyfarfodydd (pan fyddant ar gael).
- Mae adroddiadau'r Awdurdod yn dilyn fformat strwythuredig sy'n sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno mewn modd clir a chyson er mwyn cynorthwyo i wneud penderfyniadau.
- Mae gan yr Awdurdod gynllun cyhoeddi, ac mae'n cydymffurfio â gofynion y Comisiynydd Gwybodaeth o ran ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, sy'n sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gwybodaeth sydd ganddo.
- Mae'r dogfennau Gwella a Llesiant yn nodi amcanion yr Awdurdod.
- Adolygwyd y Datganiad Blynyddol o Gyfrif i wneud yn siŵr ei fod mewn fformat haws i'r defnyddiwr. Mae'n darparu gwybodaeth glir am incwm a gwariant, ac mae'n dangos bod stiwardio arian cyhoeddus wedi digwydd yn y flwyddyn. Caiff y cyfrifon eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau statudol, sef 31 Mai.
- Mae'r Datganiad Blynyddol ar Bolisi Tâl yn cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011. Mae cyflogau'r aelodau yn cael eu talu yn unol ag argymhellion y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ac yn cael eu hadrodd ar y rhyngrwyd.
- Mae'r aelodau a'r uwch swyddogion yn datgan buddiannau perthnasol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r Awdurdod i ganfod trafodion partïon cysylltiedig, ac i adrodd yn eu cylch.
- Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gyhoeddi i roi tryloywder ynghylch y trefniadau llywodraethu a'r gwelliannau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- Mae'r Datganiad Blynyddol o Gyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn agored i gael eu craffu a'u cymeradwyo yn unol â Chyfansoddiad yr Awdurdod.
- Swyddfa Archwilio Cymru yw'r archwilydd allanol a benodwyd, ac mae'n darparu barn ar y Datganiad o Gyfrifon sy'n cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar sail argymhellion a, phan fo angen, mae'n cymryd camau i gywiro pethau.
- Mae'r trefniadau Archwilio Mewnol yn cynnwys dull sy'n seiliedig ar risg, sy'n darparu sicrwydd fod y risgiau allweddol yn cael eu rheoli. Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar sail argymhellion a, phan fo angen, mae'n cymryd camau i gywiro pethau.
- Mae prosesau ar gael i sicrhau bod argymhellion gan gyrff archwilio a rheoleiddio yn cael eu gweithredu.

## Cyfranwyr Allweddol at Ddatblygu a Chynnal y Fframwaith Llywodraethu

| | |
|---|---|
| Yr Awdurdod Tân ac Achub | Mae'r Awdurdod yn darparu arweiniad strategol, rhyngwyneb gwleidyddol a her gorfforaethol ar gyfer darparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru, gan annog cyfranogiad gan y cyhoedd a gan gynnal ei faterion mewn ffordd agored a thryloyw. Mae'n cytuno ar y Cynllun Gwella a Llesiant, a'r cyllidebau refeniw a chyfalaf. |
| Y Panel Gweithredol | Mae'n monitro perfformiad y Gwasanaeth ac mae'n gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub ynghylch ei bolisïau allweddol, gan gynnwys y Cynllun Gwella a Llesiant. Mae'r panel yn adolygu'r gofrestr risgiau strategol. |
| Y Gweithgor Cynllunio | Mae'n gwneud gwaith manwl yn gysylltiedig â'r broses gynllunio a gosod y gyllideb yn y Gwasanaeth. Mae'n cyflwyno ei sylwadau i'r Panel Gweithredol, sydd yn ei dro yn gwneud argymhellion ar gyfer amcanion gwella/lleihau risg/llesiant i'r ATA llawn. |
| Y Pwyllgor Archwilio | Mae'n darparu adolygiad annibynnol o'r fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, ac mae'n goruchwylio'r adroddiadau ariannol, gan gynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r cyfrifon blynyddol. |
| Y Pwyllgor Safonau | Mae'n hyrwyddo ac yn cynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau'r Awdurdod, ac mae'n goruchwylio'r polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn Aelodau'r Awdurdod. Hefyd, pan fo statud yn caniatáu, mae'n derbyn adroddiadau a chwynion am Aelodau ac yn cynnal neu'n goruchwylio ymchwiliadau ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod. |
| Y Grŵp Gweithredol | Mae'n gosod ac yn arwain y gwaith o weithredu'r safonau llywodraethu yn y Gwasanaeth. Mae'n derbyn y cynllun gwella blynyddol, ac mae'n ei fwydo i'r hunan-asesiad blynyddol. |
| Archwilio Mewnol | Mae'n darparu barn annibynnol a gwrthrychol blynyddol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r rheolaeth fewnol, y trefniadau rheoli risg a llywodraethu. Mae'n ymchwilio i dwyll ac anghysonderau. |

## Sut mae'r Awdurdod wedi Delio â'r Camau Gweithredu Llywodraethu ers 2020/21?

Roedd yr Asesiad Llywodraethu a Gwella Blynyddol 2019/20 yn cynnwys y camau gwella canlynol. Dyma sut yr ymdriniwyd â nhw:

| Maes Gwella | Cyfrifoldeb | Cynnydd ym Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| Adolygu'r Rheoliadau a Pholisïau Ariannol yn unol â model CIPFA i sicrhau eu bod yn adlewyrchu gofynion yr Awdurdod. | PSTC (Cyllid ac Adnoddau)<br>Pennaeth Cyllid | Cwblhawyd y drafft cyntaf.<br>Cafodd y Cynllun Dirprwyo Ariannol ei rannu gyda'r uwch reolwyr yn Hydref 2020.<br>Cymeradwywyd y Strategaeth Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn gan yr Awdurdod ym Mawrth 2021. |
| Adolygu Safonau Ymddygiad staff | PSTC (Gweithrediadau a Hyfforddiant)<br>PSTC (Cyllid ac Adnodau<br>Pennaeth AD | Mae'r Safonau Ymddygiad wrthi'n cael eu hail-ddrafftio a byddant yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Grŵp Gweithredol. |
| Cwblhau *Cyber Essentials Plus* i ddiogelu rhag bygythiadau seiber. | PSTC (Diogelwch Tân)<br>Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a TGCh | Cynhaliwyd asesiad gwaelodid gan yr adran TGCh ac mae cynllun gweithredu yn ei le i fynd i'r afael â'r risgiau a sicrhau cydymffurfiaeth.<br>Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i gwrdd ag anghenion penodol, yn benodol symud i'r system Microsoft 365. Darperir diweddariadau rheolaidd i'r Grŵp Strategaeth Gwybodaeth. |
| Sefydlu cylch cynllunio wedi'i chydlynu ar gyfer cynllunio corfforaethol a chynllunio ariannol.<br>Helpu i gynllunio dyfodol ac ariannu amcanion y gwasanaeth trwy gyflwyno cylch cydlynol ar gyfer cynllunio corfforaethol a chynllunio ariannol i sicrhau | Pennaeth Cyllid<br>Rheolwr Cynllunio Corfforaethol | Cynhaliwyd sesiynau gyda'r swyddogion i egluro'r dull integredig o gynllunio a'r amserlen. Mae'r amcanion adrannol ar gyfer 2020/21 a 2021/22 wedi cael eu llunio ac maent yn cael eu hadolygu'n barhaus.<br>Cyflwynwyd cynlluniau adrannol 3 blynedd i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y broses o osod y gyllideb ar gyfer 2021/22 a datblygu'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. |

| Maes Gwella | Cyfrifoldeb | Cynnydd ym Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| bod yr Awdurdod a'i swyddogion yn rhan o'r gwaith blaengynllunio yn unol â'r amcanion corfforaethol a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. | | Bydd y gwaith yn parhau yn ystod 2021/22 er mwyn sefydlu'r broses hon ymhellach yn y Gwasanaeth. |
| Yn dilyn y datganiadau polisi amgylcheddol ac ynni a fabwysiadwyd eisoes, bydd y Gweithgor Cynllunio yn ystyried strategaeth amgylcheddol newydd. | PSC (Cynllunio a Pherfformiad)<br>Rheolwr Cynllunio Corfforaethol | Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol, gan y swyddogion, i edrych ar y meysydd amrywiol perthnasol ond mae'r gwaith wedi ei ohirio oherwydd Covid 19. |
| Cefnogi'r ymateb rhanbarthol a chenedlaethol i'r digwyddiad Grenfell a gweithredu unrhyw newidiadau gweithdrefnol a fydd yn deillio o'r arolwg annibynnol. | PSTC (Diogelwch Tân)<br>Uwch Reolwr Diogelwch Tân | Yn ystod 2020 fe ymatebodd GTAGC i sawl ymgynghoriad yn cynnwys y Bil Diogelwch Tân, y Gorchymyn Diogelwch Tân, y Bil Diogelwch Adeiladau, ymgynghoriad cynllunio Llywodraeth Cymru a phapur sefyllfa Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Adeiladau. Cyhoeddodd Lywodraeth Cymru bapur gwyn ar Ddiogelwch Adeiladau yng Nghymru yn Ionawr 2021, a chafwyd cyfnod ymgynghori o 12 wythnos. Cafodd hyn ei ystyried gan yr Adran Diogelwch Tân a chyhoeddwyd ymateb. |
| Yn dilyn gweithredu cynlluniau parhau busnes ym Mawrth 2020, cwblheir arolwg i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a bod trefniadau'n cael eu diweddaru lle bo angen. | Prif Swyddogion | Mae arolwg o'r ymateb i Covid-19 ar y gweill ledled y Gwasanaeth a bydd adroddiad yn cael ei ddrafftio i nodi'r cyfleoedd dysgu. Caiff hyn ei fonitro gan y Grŵp Gweithredol yn ystod 2021/22. |
| Sicrhau bod arweiniad y llywodraeth mewn perthynas â threfniadau pensiwn trosiannol yn cael ei weithredu. Cwblhau holl gamau gweithredu a gofynion Bwrdd Cynghori'r Cynllun yng Nghymru. | PSTC (Cyllid ac Adnoddau)<br>Rheolwr Pensiynau | Fe wnaeth y llywodraeth ymgynghori ledled y sector cyhoeddus rhwng Gorffennaf a Hydref 2020. Nid yw'r llywodraeth wedi cyhoeddi'r cynigion manwl ond mae disgwyl i hynny ddigwydd yn ystod 2021/22. Cyflwynir adroddiadau ar y sefyllfa bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn Lleol a chyfarfodydd Bwrdd Cynghori'r Cynllun a darperir diweddariadau i'r Awdurdod. |

## Barn a Chasgliad Llywodraethu

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod llywodraethiant da yn darparu sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion rhanddeiliaid ac sy'n sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda. Mae'r adolygiad hwn yn cadarnhau'r systemau llywodraethu a'r gwaith monitro sy'n bodoli ar gyfer 2020/21 a'r camau a gymerir i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

Mae'r Awdurdod wedi'i fodloni bod trefniadau llywodraethu priodol ar gael, ac mae'n parhau wedi ymrwymo i wella'r rhain drwy roi cynllun gweithredu 2021/22 ar waith.

**Llofnod: ........................................................ (Cadeirydd) ……………………………………….……….……….…….2021**

**Llofnod: ........................................................(Prif Swyddog Tân) ……………………………………………………2021**

## Atodiad A – Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethiant 2019/20

| Maes Gwelliant | Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog | Bydd y Polisïau Rheoliadau Ariannol a Chyllid yn cael eu hadolygu i wneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu gofynion yr Awdurdod Tân ac Achub. | PSTC (Cyllid ac Adnoddau)<br>Pennaeth Cyllid | Medi 2021 |
| Diogelwch Seibr | Yr adran TGCh i barhau gyda cham gwweithredu 2019/2020, mewn perthynas â *Cyber Essentials Plus* i amddiffyn rhag bygythiadau seibr | PSTC (Diogelwch Tân) yllid ac Adnod<br>Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a TGCh | Mawrth 2022 |
| Strategaeth Amgylcheddol | Yn dilyn y datganiadau polisi amgylcheddol ac ynni a fabwysiadwyd eisoes, bydd y Gweithgor Cynllunio yn datblygu strategaeth amgylcheddol newydd. | PSTC (Cynllunio a Pherfformiad)<br>Rheolwr Cynllunio Corfforaethol | Mawrth 2022 |
| Rheoleiddio Diogelwch Tân | Cefnogi ymateb rhanbarthol a chenedlaethol i achos Grenfell a gweithredu unrhyw newidiadau gweithdrefnol o ganlyniad i'r adolygiad annibynnol. | PSTC (Diogelwch Tân)<br>Uwch Reolwr Diogelwch Tân | Mawrth 2022 |
| Adolygu Trefniadau Parhad Busnes | Sicrhau bod argymhellion yr adroddiad Covid-19 yn cael eu gweithredu yn ystod 2021/22. | PSTC (Gweithrediadau a Hyfforddiant)<br>Uwch Reolwyr Gweithrediadau a Hyfforddiant | Medi 2021 |

| Maes Gwelliant | Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod cyfarwyddyd y llywodraeth mewn perthynas â threfniadau pensiynau trosiannol yn cael ei weithredu | Cwblhau'r holl gamau gweithredu a gofynion sydd yn deillio o Fwrdd Ymgynghorol yn Cynllun ar gyfer Cymru. | PSC (Cyllid ac Adnoddau)<br>Rheolwr Pensiynau | Mawrth 2022 |

# Atodiad B – Crynodeb o Fframwaith Llywodraethu'r Awdurdod

### Egwyddorion Llywodraethu Da

Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith
Bod yn agored a ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid
Diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
Penderfynu pa ymyriadau sydd eu hangen i gael y canlyniadau a fwriedir
Datblygu gallu'r Awdurdod, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'i weithwyr cyflogedig
Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gref
Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd

**Ffynonellau Tystiolaeth**

- Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Cynllunio ariannol
- Trefniadau partneriaeth
- Strategaeth a pholisïau Adnoddau Dynol
- Strategaeth Gaffael
- Cyfansoddiad
- Disgrifiadau swyddi
- Prif Swyddog Tân
- Y Trysorydd
- Swyddog Monitro
- Adroddiadau a gyhoeddir
- Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned
- Strategaeth Gyfathrebu
- Cynllun Gwella a Llesiant
- Asesiadau Effaith Integredig

**Ffynonellau Sicrwydd**

- Adroddiadau perfformiad
- Adroddiadau ariannol
- Trefniadau democrataidd
- Adroddiadau gan archwilwyr allanol a rheoleiddwyr
- Adroddiadau Archwilio Mewnol
- Byrddau Partneriaeth
- Adborth cwsmeriaid
- Ymgynghoriadau

**Aelodau**

- Awdurdod Tân ac Achub a'i bwyllgorau

**Gweithrediaeth**

- Grŵp Gweithredol

**Ffynonellau Tystiolaeth**

- Arweinyddiaeth
- Gwerthoedd Craidd
- Trefniadau cydraddoldeb
- Trefniadau rhyddid gwybodaeth
- Codau Ymddygiad
- Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Pwyllgor Archwilio a Safonau
- Cyngor ac arweiniad arbenigol
- Rheoli risg
- Rheolaethau mewnol
- Gwasanaeth Archwilio Mewnol
- Rheoli gwybodaeth
- Datblygu staff ac aelodau etholedig
- Proses gwynion

**Asesiad Blynyddol o Lywodraethiant a Gwella – llofnodwyd gan y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân**

**Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethiant – adolygwyd yn chwarterol gan y Grŵp Gweithredol**

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 June 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch, Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch (01745 535286)** |
| Pwnc | **Gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol 2020/2021** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Rhoi gwybod i Aelodau'r Awdurdod am sefyllfa fenthyciadau a dangosyddion darbodus terfynol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Mae'r adroddiad hwn yn un o ofynion y Cod Darbodus (y Cod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Mae gweithgareddau'r Awdurdod ar gyfer rheoli'r trysorlys yn cael eu rheoleiddio gan godau proffesiynol, statudau a chyfarwyddyd. £26.1m oedd y sefyllfa fenthyca ar 31 Mawrth 2021, ac mae hyn o fewn y terfyn a gymeradwywyd gan yr aelodau. £14m oedd gwerth benthyciadau'r farchnad a oedd yn aeddfedu o fewn 12 mis, ac mae hyn o fewn y terfyn a osodwyd o fewn y strategaeth. Nid oedd ganddo unrhyw fenthyciadau ar gyfradd newidiol yn ystod y flwyddyn ariannol.

**ARGYMHELLIAD**

3. Gofynnir i'r Aelodau wneud y canlynol:

   (i) nodi'r benthyciadau a oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2021; a
   (ii) cymeradwyo dangosyddion darbodus terfynol 2020/21.

**CEFNDIR**

4. Mae gweithgareddau'r Awdurdod ar gyfer rheoli'r trysorlys yn cael eu rheoleiddio gan godau proffesiynol, statudau a chyfarwyddyd perthnasol. Mae'r gofynion allweddol yn cynnwys llunio Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a dangosyddion darbodus i ddangos bod y penderfyniadau ynghylch cyfalaf a benthyciadau yn rhai fforddiadwy. Cafodd y dogfennau hyn eu cymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 16 Mawrth 2020. Mae trefniadau ar gael i fonitro ac adrodd ynghylch y dangosyddion darbodus yn ystod y flwyddyn ariannol ac i adrodd ynghylch y sefyllfa alldro i'r Awdurdod.

5. Cafodd y dangosyddion darbodus eu hadolygu yn ystod y flwyddyn oherwydd bod y rhaglen gyfalaf wedi cael ei had-drefnu gan arwain at lai o angen i fenthyca yn ystod y flwyddyn. Cafodd y diwygiadau hyn eu cymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2020. Dyma'r adroddiad terfynol ar gyfer 2020/21, ac mae'n darparu dadansoddiad o'r ddyled sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys a Chod Darbodus CIPFA.

**Gwybodaeth**

**Crynodeb o'r Strategaeth y Cytunwyd arni ar gyfer 2020/2021**

6. Caiff y penderfyniadau o ddydd i ddydd ynghylch benthyca eu dirprwyo i Drysorydd yr Awdurdod, sy'n gorfod sicrhau'r ffurf fwyaf priodol ar fenthyca, gan ddibynnu ar y cyfraddau llog sy'n gyffredin ar y pryd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cyfraddau sefydlog tymor byr, a allai ddarparu cyfleoedd am gostau is yn y tymor byr.

7. Dim ond ar gyfer cyfalaf gweithio y bydd arian dros ben yn cael ei gadw, a bydd yn cael ei fuddsoddi yn y tymor byr mewn banciau neu gymdeithasau adeiladu. Yn ystod 2020/2021, ni chafodd buddsoddiadau tymor hir eu gwneud gyda'r Awdurdod, a hynny yn unol â'r strategaeth a gymeradwywyd sef y byddai buddsoddiadau'n cael eu dal ar gyfer llif arian parod yn unig.

**Gweithgarwch Benthyca**

8. Cymerir benthyciadau i ariannu rhaglen gyfalaf yr Awdurdod. £26.1m oedd y ddyled fenthyca a oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2021.

| | **2019/20** | | **2020/21** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfraddau** | **Benthyciadau £000** | **Cyfraddau** | **Benthyciadau £000** |
| Benthyciadau'r Farchnad | 0.85-1.20 | 16,000 | 0.05-0.10 | 14,000 |
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 1.45-4.9 | 14,909 | 1.45-4.9 | 12,119 |
| **Cyfanswm y Benthyciadau Allanol** | | **30,909** | | **26,119** |

| | **2019/20** | | **2020/21** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Tymor Byr £000** | **Tymor Hir £000** | **Tymor Byr £000** | **Tymor Hir £000** |
| Benthyciadau'r Farchnad | 16,000 | 0 | 14,000 | 0 |
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 0 | 14,909 | 2,684 | 9,435 |
| **Cyfanswm y Benthyciadau Allanol** | **16,000** | **14,909** | **16,684** | **9,435** |

9. Mae benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar 31 Mawrth 2021 wedi'u nodi isod, a £12.12m oedd eu gwerth:

| **Proffil aeddfedu benthyciadau'r PWLB ar y dechrau** | **Cyfanswm yr holl fenthyciadau** | **Swm (£)** |
|---|---|---|
| 1 i 2 flynedd | 28.2% | 7.36m |
| 3 i 5 flynedd | 8.3% | 2.17m |
| 6 i 10 flynedd | 0.7% | 0.17m |
| 10 mlynedd a mwy | 9.3% | 2.42m |
| **Cyfanswm gan PWLB** | **46.4%** | **12.12m** |

10. Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau newydd gan y PWLB yn ystod y flwyddyn. Mae'r portfffolio benthyciadau yn cynnwys benthyciadau Rhandaliadau Cyfartal o'r Prifswm (*EIP - Equal Instalment of Principal*), a oedd £2.79m yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

11. £14m oedd benthyciadau tymor byr y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn, ac roeddent yn ymwneud â benthyca gydag awdurdodau lleol eraill:

| **Sefydliad** | **Canran o'r holl fenthyciadau** | **Swm (£)** |
|---|---|---|
| Cyngor East Riding of Yorkshire | 11.5% | 3.0m |
| Cyngor Swydd Warwick | 11.5% | 3.0m |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 30.6% | 8.0m |
| **Cyfanswm y Benthyciadau Tymor Byr** | **53.6%** | **14m** |

12. Roedd y benthyciadau hyn yn darparu opsiwn ar gost isel i'r Awdurdod, gan mai 0.085% oedd y gyfradd log gyfartalog, sy'n cymharu'n ffafriol â'r gyfradd o 0.99% a gynigir gan y PWLB i fenthyciadau am flwyddyn.

13. Fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo 55% fel terfyn uchaf ar gyfer benthyciadau a oedd yn aeddfedu cyn pen 12 mis. Y sefyllfa ar 31 Mawrth 2021 oedd bod 53.6% o'r benthyciadau yn cael eu hystyried yn fenthyciadau tymor byr gydag Awdurdodau Lleol eraill. Roedd gweddill y benthyciadau'n rhai gyda'r PWLB, a chymerir benthyciadau eraill gyda'r PWLP pan fyddant yn aeddfedu.

14. Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn cadarnhau y dylai'r portffolio benthyciadau fod ag uchafswm o 35% o ddyled mewn benthyciadau amrywiol, a hyd at 100% o fenthyciadau ar gyfnod sefydlog. Yn ystod 2020/21, dim ond ar delerau cyfnod sefydlog y gwnaeth yr Awdurdod fenthyca, a hynny oherwydd y cyfraddau llog sy'n gyffredin ac er mwyn caniatáu sicrwydd.

15. Yn 2020/21, roedd y benthyciadau gwirioneddol £3.27m yn is na'r gofyniad cyllido cyfalaf a gymeradwywyd, a hynny'n bennaf oherwydd gostyngiadau pellach yn y rhaglen gyfalaf. Talwyd cyfanswm o £0.380m o log, o gymharu â'r gyllideb o £0.568m. Y gyfradd fenthya tymor byr ar gyfartaledd yn y flwyddyn oedd 0.86%, a'r gyfradd tymor hir ar gyfartaledd oedd 2.30%.

**Buddsoddiadau**

16. Mae'r egwyddorion sy'n llywodraethu polisi buddsoddi'r Awdurdod wedi'u cynnwys mewn Cyfarwyddyd gan Gynlluniad Cenedlaethol Cymru yn 2003. Roedd y gweithgareddau buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn, ac nid oedd unrhyw anawsterau hylifedd gan yr Awdurdod.

17. Roedd y strategaeth fuddsoddi ar gyfer 2020/21, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ar 16 Mawrth 2020, yn cynnwys cymeradwyo'r meini prawf canlynol ar gyfer partïon i gontract:

I. Swyddfa Rheoli Dyledion yn y Trysorlys: terfyn £5.0m
II. Awdurdodau Lleol (ac eithrio cap ar gyfraddau): terfyn £2.0m
III. Mae sgoriau da (Fitch neu gyfwerth ag A-) gan holl fanciau'r DU ac Iwerddon, a'u his-gwmnïau – terfyn: £5.0m

18. Os yw sgoriau banciau'n gostwng yn is na'r rhai sydd yn y tabl uchod, bydd y banciau hynny'n cael eu defnyddio os yw adneuon mawr yn cael eu sicrhau gan warant llywodraeth, ac os yw'r adneuon yn dod o fewn telerau'r warant.

19. Mae £2.0m o derfyn benthyca gan Gymdeithasau Adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio). Mae £2m o derfyn, a 9 mis o gyfyngiad amser ar y mwyaf, gan Gymdeithasau Adeiladu sydd heb sgôr ond sydd ag asedau gwerth £1 biliwn neu fwy.

20. £1.49m oedd balans y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2021, o gymharu â £1.73m ar 31 Mawrth 2020. Er mwyn cynnal sefyllfa hylifedd yn yr Awdurdod, cafodd yr arian ei gadw gan mwyaf mewn cyfrifon galw â mynediad ar unwaith. 0.05% oedd y gyfradd gyfartalog a gafwyd ar y buddsoddiadau. Y gyllideb ar gyfer llog buddsoddiadau oedd dim, a'r llog a gafwyd mewn gwirionedd oedd £0.002m.

**Dangosyddion Darbodus**

21. Dan y Cod Darbodus, rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo'r dangosyddion darbodus gwirioneddol ar ôl diwedd y flwyddyn, ac maent wedi'u nodi yn Atodiad A. Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r terfynau allweddol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod, ynghyd â'r alldro ar gyfer 2020/21:

| | 2020/2021 Dangosydd Diwygiedig £'000 | 2020/2021 Gwirioneddol £'000 |
|---|---|---|
| Sefyllfa fenthyciadau | 27,791 | 26,119 |
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) | 30,551 | 29,389 |

22. Mae'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) yn dangos beth yw'r angen gwaelodol sydd ar yr Awdurdod i fenthyca am resymau cyfalaf. Yn y tymor byr, gallai'r gofyniad i fenthyca fod yn uwch na'r gofyniad cyllido cyfalaf, a hynny oherwydd effaith arian parod a buddsoddiadau. Mae'r tabl uchod yn dangos bod y sefyllfa fenthyciadau gros £3.27m yn is na'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf ar gyfer 2020/21.

23. Y Terfyn Awdurdodedig yw'r terfyn benthyca fforddiadwy sy'n ofynnol dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Yn ystod 2020/21, mae'r Awdurdod wedi cadw ei fenthyciadau gros o fewn ei Derfyn Awdurdodedig, sef £32.5m.

24. Y Ffin Weithredol yw'r sefyllfa fenthyca a ddisgwylir yn yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, ac mae cyfnodau pan fo'r sefyllfa wirioneddol naill ai uwchlaw neu islaw'r Ffin yn dderbyniol, ar yr amod nad yw'r Terfyn Awdurdodedig yn cael ei dorri.

| | **2020/21 £'000** |
|---|---|
| Dangosydd Diwygiedig – Terfyn Awdurdodedig | 32,551 |
| Dangosydd Diwygiedig – Ffin Weithredol | 30,551 |
| Y sefyllfa fenthyca uchaf yn ystod y flwyddyn | 31,248 |
| Y sefyllfa fenthyca isaf yn ystod y flwyddyn | 26,119 |

**FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO, RISG A PHERFFORMIAD**

25. Mae gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn yr Awdurdod yn cael eu rheoleiddio gan godau proffesiynol, statudau a chyfarwyddyd, fel y gwelir isod:

26. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 (y Ddeddf) yn darparu'r pwerau i fenthyca ac i fuddsoddi, yn ogystal ag yn darparu rheolaethau a therfynau ar y gweithgarwch hwn. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru osod terfynau, naill ai ar yr Awdurdod neu yn genedlaethol ar bob awdurdod lleol, i gyfyngu ar y swm y gellir ei benthyca (er na chafodd unrhyw gyfyngiadau eu gwneud yn 2019/20). Dan y Ddeddf, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi Canllaw ar Fuddsoddi i strwythuro a rheoleiddio gweithgareddau buddsoddi'r Awdurdod.

27. Mae Offeryn Statudol (OS) 3239 (Cy.319) 2003, fel y'i diwygiwyd, yn datblygu'r rheolaethau a'r pwerau o fewn y Ddeddf. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried Cod Darbodus CIPFA ar Gyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol wrth wneud unrhyw weithgareddau benthyca, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus wrth gyflawni'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys yn gyffredinol; mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol perthnasol uchod, sy'n cyfyngu ar y lefelau o risg sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau rheoli'r trysorlys. Yn nodedig, gan ei fod wedi mabwysiadu a gweithredu'r Cod Darbodus a'r Cod Ymarfer ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, mae ei wariant cyfalaf yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, ac mae arferion ei drysorlys yn dangos dull sy'n ymwneud â risgiau isel.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ac amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae'r adroddiad yn sicrhau bod asedau i gefnogi gwasanaethau rheng flaen yn cael eu prynu mewn modd darbodus, fforddiadwy a chynaliadwy. Mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn digwydd yn y seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Gosodir y gyllideb bob blwyddyn ar gyfer cyllido cyfalaf, a hynny yn unol ag adroddiad y Trysorlys. |
| Cyfreithiol | Mae'r fframwaith rheoleiddiol wedi'i nodi ym mharagraff 18. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Buddsoddi arian dros ben – mae risg y gallai'r sefydliad ariannol lle mae arian y gwasanaeth yn cael ei fuddsoddi fethu, gan golli rhan o'r prifswm a fuddsoddwyd. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lleihau'r risg hon. |

**Atodiad A**

**Dangosyddion Darbodus**

| | | Dangosyddion Diwygiedig 2020/21 £'000 | Gwirioneddo 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf | 1,014 | 0 |
| 2 | Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 30,551 | 29,389 |
| 3 | Benthyca | 27,791 | 26,119 |
| 4 | Terfyn Awdurdodedig | 32,551 | 32,551 |
| 5 | Ffin Weithredol | 30,551 | 30,551 |
| 6 | Cymhareb rhwng Costau Cyllido a Gwariant Net | 7.48% | 6.91% |
| 7 | Buddsoddiadau | 2,640 | 1,495 |
| 8 | Benthyciadau cyfraddau llog sefydlog fel % o'r Holl Fenthyciadau | 100% | 100% |
| 9 | Benthyciadau cyfraddau amrywiol fel % o'r Holl Fenthyciadau | 0% | 0% |
| 10 | Strwythur Aeddfedu Benthyciadau Cyfradd Sefydlog – ar ddechrau'r benthyciad | | |
| | Dan 12 mis | 0% - 55% | 53.6% |
| | 12 mis i 2 flynedd | 0% - 45% | 23.24% |
| | 2 flynedd i 5 mlynedd | 0% - 45% | 3.13% |
| | 5 mlynedd i 10 mlynedd | 0% - 75% | 0.87% |
| | 10 mlynedd a mwy | 0% - 100% | 8.88% |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Mehefin 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur (01745 535286)** |
| Pwnc | **Her gyfreithiol i ddiwygiadau pensiwn 2015** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) am yr her gyfreithiol i'r broses o weithredu diwygiadau cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân a ddaeth i rym yn 2015. Cafodd yr her gyfreithiol lwyddiannus ei chyflwyno gan Undeb yr FBU ar ran ei aelodau ar fater gwahaniaethu uniongyrchol ar sail oedran. Mae'r canlyniad yn arwain at oblygiadau i bob cynllun pensiwn yn y sector cyhoeddus.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Yn dilyn proses gyfreithiol hirfaith ar fater gwahaniaethu ar sail oedran yn y diwygiadau i bensiynau'r sector cyhoeddus, dyfarnodd y Llys Apêl o blaid yr hawlwyr, a rhoddwyd y dyfarniad ar 18 Rhagfyr 2018. Roedd hyn yn cadarnhau nad oedd cyfiawnhad dros y gwahaniaethu ar sail oedran a oedd yn ymhlyg yn y diwygiadau i bensiynau yn 2015. Cyfeirir at yr achos fel Dyfarniad McCloud/Sargeant (y Dyfarniad).

3 Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd aelodau cymwys yn cael eu trosglwyddo'n ôl i'w cynlluniau gwaddol ar gyfer cyfnod y rhwymedi, sef 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2022. Ar 1 Ebrill 2022, bydd pob aelod yn mynd yn ôl i'r cynlluniau diwygiedig, ni waeth beth fo'r amddiffyniadau blaenorol.

4 Bydd aelodau a drosglwyddodd i'w cynllun gwaddol am gyfnod y rhwymedi yn cael hawl i ddewis pan fyddant yn ymddeol. Yr enw ar hyn yw'r tanategiad dewis gohiriedig, ac mae'n galluogi aelodau i ddewis rhwng derbyn y buddion pensiwn a gronnodd yn ystod cyfnod y rhwymedi naill ai yn eu cynllun gwaddol neu yn y cynllun diwygiedig.

5 I hwyluso'r newidiadau hyn, mae gofyniad i ddiwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol ac i ddatblygu canllaw penodol ar yr agweddau manwl ar y rhwymedi. Yna, bydd angen newidiadau i reoliadau Llywodraeth Cymru er mwyn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer Rheolwyr Cynlluniau. Mae gwaith cenedlaethol wrthi'n cael ei wneud i ddatblygu'r dogfennau diffiniadol amodol, a fydd yn galluogi darparwyr meddalwedd i ddechrau ar ddiweddariadau i systemau.

6 Er nad yw'r amserlen fanwl yn hysbys eto, rhagwelir y bydd y gwaith wedi cael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2023. Mae aelodau sydd i fod i ymddeol cyn i'r trefniadau deddfwriaethol gael eu cwblhau'n derfynol yn cael eu hystyried yn rhai â niwed uniongyrchol. Hyd nes y caiff y dogfennau cynllunio manwl eu darparu, ystyrir nad oes modd cyfrifo eu buddion oherwydd ansicrwydd technegol.

7 Mae Undeb yr FBU wedi mynd i gyfraith eto yn derbyn dau awdurdod tân ac achub ynglŷn ag achosion o niwed uniongyrchol, gan geisio dyfarniad cyfreithiol i fynnu eu bod yn eu prosesu cyn y newidiadau rheoleiddiol. Er nad yw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhan o'r ymgyfreithiad, mae'r canlyniad yn berthnasol i bob awdurdod yn y sector.

8 Mae ymgynghorwyr cyfreithiol awdurdodau tân ac achub y DU yn cydnabod bod anawsterau yn y sector. Maent yn ceisio cytuno gydag Undeb yr FBU ar ddulliau i alluogi achosion o niwed uniongyrchol i gael eu trin yn gyflym, teg a chyson.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL NEU'R PWYLLGOR ARCHWILIO**

9 Nid yw'r Panel Gweithredol na'r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried yr adroddiad hwn yn flaenorol. Cafodd y Bwrdd Pensiwn Lleol wybodaeth am y mater yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2021.

**ARGYMHELLION**

10 Gofynnir i'r Aelodau wneud y canlynol:

(i) nodi cefndir Dyfarniad McCloud/ Sargeant;
(ii) nodi'r sefyllfa bresennol o ran y rhwymedi; a
(iii) cymeradwyo'r argymhelliad nad yw achosion o niwed uniongyrchol yn cael eu symud ymlaen, gan aros rhagor o arweiniad gan ymgynghorwyr cyfreithiol neu dderbyn canllaw cenedlaethol.

**CEFNDIR**

11 Yn dilyn adolygiad yr Arglwydd Hutton yn 2011 o bensiynau'r sector cyhoeddus, roedd y Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus (2013) yn darparu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer diwygio cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus. Roedd y diwygiadau'n cynnwys cyfyngu ar y cynlluniau cyflog terfynol sy'n bodoli eisoes, ymestyn yr oedrannau ymddeol, a chyflwyno cynlluniau cyfartaledd gyrfa.

12 Yn ystod 2015, cafodd pob un o'r prif bensiynau gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys cynllun y diffoddwyr tân, eu diwygio i ddarparu buddion diffiniedig ar sail cyfartaledd gyrfa ac i ymestyn y dyddiad ymddeol arferol i'r aelodau. Er mwyn rhoi'r newidiadau hyn mewn grym, diwygiwyd rheoliadau cynlluniau pensiwn.

13 Hefyd, roedd y rheoliadau a ddiwygiedig yn darparu amddiffyniad i aelodau cynlluniau cyflog terfynol cyfredol. Roedd yr amddiffyniad yn gysylltiedig ag oedran, ac roedd aelodau a oedd yn cyrraedd yr oedran pensiwn arferol, sef 55 oed, cyn 31 Mawrth 2022 yn cael amddiffyniad llawn tra roedd aelodau eraill yn derbyn amddiffyniad ar sail leihaol yn dibynnu ar eu hoedran. Yr enw ar yr amddiffyniad hwn oedd amddiffyniad trosiannol, a chafodd aelodau nad oedd yn gymwys ar gyfer yr amddiffyniad eu symud yn uniongyrchol i Gynllun Pensiwn newydd y Diffoddwyr Tân 2015.

14 Cyfunwyd dau hawliad cyfreithiol, ac aethpwyd â nhw drwy'r broses gyfreithiol; un yn erbyn cynllun pensiwn y barnwyr (achos McCloud) a'r llall yn erbyn cynllun pensiwn y diffoddwyr tân (achos Sargeant). Sail yr her gyfreithiol oedd bod y trefniadau trosiannol yn gwahaniaethu ar sail oedran, rhyw a hil.

15 Yn Rhagfyr 2018, penderfynodd y Llys Apêl fod yr amddiffyniad trosiannol yn golygu gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail oedran. Gwrthododd y Goruchaf Lys gais y Llywodraeth am ganiatâd i apelio, sy'n golygu bod penderfyniad y Llys Apêl yn aros.

16 Yng Ngorffennaf 2019, cadarnhaodd Llywodraeth y DU ei bwriad i weithio gyda'r Tribiwnlys Cyflogaeth i roi effaith i rwymedi yn holl gynlluniau'r sector cyhoeddus. Roedd hyn yn dileu'r angen i aelodau o gynlluniau eraill y sector cyhoeddus sy'n cael eu heffeithio yn yr un modd gan y Dyfarniad i fynd i gyfraith hefyd.

**RHWYMEDI**

17 Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd aelodau cymwys yn cael eu trosglwyddo'n ôl i'w cynlluniau gwaddol am gyfnod y rhwymedi, sef 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2022. Ar 1 Ebrill 2022, bydd pob aelod yn mynd yn ôl i'r cynlluniau diwygiedig, ni waeth beth fo'r amddiffyniadau blaenorol.

18 Bydd rhaid i aelodau sy'n cael eu trosglwyddo'n ôl i'w cynllun gwaddol ddewis pan fyddant yn ymddeol. Yr enw ar hyn yw'r tanategiad dewis gohiriedig, a bydd yr aelodau'n dewis rhwng derbyn eu buddion pensiwn a gronnodd yn ystod cyfnod y rhwymedi naill ai yn eu cynllun gwaddol neu yn y cynllun diwygiedig.

19 I hwyluso'r newidiadau hyn, mae gofyniad i ddiwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol a datblygu canllaw penodol ar yr agweddau manwl ar y rhwymedi. Yna, bydd angen newidiadau i reoliadau Llywodraeth Cymru i ddarparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer Rheolwyr Cynllun. Mae gwaith yn mynd ymlaen yn genedlaethol i ddatblygu'r dogfennau diffiniadol amodol, a fydd yn galluogi darparwyr meddalwedd i ddechrau ar ddiweddariadau i systemau.

20 Er nad yw'r amserlen fanwl yn hysbys eto, rhagwelir y bydd y gwaith wedi cael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2023. Mae aelodau sydd i fod i ymddeol cyn i'r trefniadau deddfwriaethol gael eu cwblhau'n derfynol yn cael eu hystyried yn rhai â niwed uniongyrchol. Hyd nes y daw dogfennau cynllunio manwl, ystyrir nad yw'n bosibl cyfrifo eu buddion oherwydd yr ansicrwydd technegol, yn enwedig ar gyfer achosion mwy cymhleth sy'n ymwneud â throsglwyddiadau i'r cynllun, rhannu pensiwn wrth ysgaru, neu achosion yn ymwneud â thorri'r lwfansau treth oes neu flynyddol.

21 Mae Undeb yr FBU wedi mynd i gyfraith yn erbyn dau awdurdod tân ac achub ar fater achosion o niwed uniongyrchol, gan geisio dyfarniad cyfreithiol y dylai'r rhain gael eu prosesu cyn y newidiadau rheoleiddiol. Nid yw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhan o'r ymgyfreithiad, er bod y canlyniad yn berthnasol i bob awdurdod.

22 Mae'r ymgynghorwyr cyfreithiol ar gyfer awdurdodau tân ac achub y DU yn cydnabod yr anawsterau sy'n bodoli yn y sector. Maent wrthi'n ceisio cytuno gydag Undeb yr FBU ar ddulliau i alluogi achosion o niwed uniongyrchol i gael eu trin yn gyflym, teg a chyson.

23 Cynhaliwyd trafodaethau technegol hefyd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a chydweithwyr o awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru er mwyn cytuno ar ddulliau cyffredin. Mae pob awdurdod yn gwneud gwaith paratoi fel y gall achosion gael eu prosesu mor gyflym ag y bo modd, pan fo hynny'n bosibl, er nad oes unrhyw achosion o niwed uniongyrchol wrthi'n cael eu prosesu ar hyn o bryd.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Er nad oes cysylltiad uniongyrchol â'r amcanion llesiant, bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar bob aelod o'r cynlluniau pensiwn cyhoeddus a gynigir gan yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Bydd rhwymedi yn y dyfodol yn arwain at oblygiadau i gyllideb yr Awdurdod; bydd y rhwymedi'n arwain at fwy o gostau mewn perthynas â gweinyddu a phensiwn y cyflogwr. |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau'r Cynllun. |

| | |
|---|---|
| Staffio | Mae'r mater hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar weithwyr sy'n aelodau o gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus a gynigir gan yr Awdurdod; gan ddibynnu ar y cynllun, mae'n bosibl i aelodau ddewis ymddeol yn gynharach dan y cynigion newydd nag o dan y rheoliadau cyfredol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r cynigion yn mynd i'r afael â'r trefniadau amddiffyniad trosiannol anghyfreithlon sy'n seiliedig ar oedran yng nghynlluniau pensiwn 2015, gan sicrhau ymdriniaeth deg i bob aelod o'r cynlluniau pensiwn. |
| Risgiau | Mae prosesu'r achosion o niwed uniongyrchol yn y newidiadau yn rheoliadau'r cynllun yn cynyddu'r risg o wallau a mynd i gyfraith. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 14**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Mehefin 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur (01745 535286)** |
| Pwnc | **Datganiad Caethwasiaeth Fodern 2020/21** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno Datganiad Caethwasiaeth Fodern Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer 2020/21 i'r Aelodau, fel y gwelir yn atodiad 1.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Y datganiad hwn yw Datganiad Caethwasiaeth Fodern cyntaf yr Awdurdod, ac mae'n nodi'r trefniadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Mae hyn yn cadarnhau bod yr Awdurdod yn ymrwymo i sicrhau nad yw'n mynd ati i annog na chefnogi caethwasiaeth na masnachu pobl.

**ARGYMHELLIAD**

3 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo Datganiad Caethwasiaeth Fodern 2020/21, a nodi'r camau a gymerwyd.

**CEFNDIR**

4 Daeth y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern i rym yn 2015 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau masnachol sydd â throsiant uwch na £36m lunio datganiad blynyddol. Fel corff cyhoeddus, mae'n arfer dda i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) lunio a chyhoeddi Datganiad Caethwasiaeth Fodern i amlinellu'r risgiau posibl o ran caethwasiaeth fodern ac i nodi'r cynlluniau sydd ganddo yn ei le i liniaru rhag y risgiau hyn.

**GWYBODAETH**

5 Y datganiad yn atodiad 1 yw Datganiad Caethwasiaeth Fodern cyntaf yr Awdurdod, ac mae'n nodi camau a gweithgareddau yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21 i ddangos cydymffurfiaeth â gofynion Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

6 Mae'r datganiad yn nodi ymrwymiad yr Awdurdod i sicrhau nad yw'n mynd ati i annog na chefnogi caethwasiaeth na masnachu pobl o fewn gweithlu'r sefydliad, o fewn y cadwyni cyflenwi nac fel rhan o weithgareddau i ddarparu gwasanaethau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r trefniadau sy'n bodoli yn cyd-fynd â'r amcanion a'r nodau llesiant ac maent yn cefnogi ein cyfrifoldebau cyffredinol. |
| Cyllideb | Ddim yn gymwys. |
| Cyfreithiol | Mae'r Datganiad yn rhoi sicrwydd fod yr Awdurdod yn gweithredu o fewn egwyddorion Deddf Caethwasiaeth Fodern (2015). |
| Staffio | Ddim yn gymwys. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae trefniadau cadarn i atal a chanfod achosion o fasnachu pobl neu gaethwasiaeth yn cefnogi'r agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth sydd gan y sefydliad. |
| Risgiau | Mae'r fframwaith a ddisgrifir yn y Datganiad yn cefnogi'r gwaith o reoli risgiau mewn perthynas â chaethwasiaeth fodern. |

## DATGANIAD CAETHWASIAETH FODERN

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

### Rhagarweiniad

Caethwasiaeth fodern yw cam-fanteisio'n anghyfreithlon ar bobl i gael elw personol neu fasnachol. Mae'n cwmpasu amrywiaeth eang o fathau o gam-drin a cham-fanteisio, gan gynnwys cam-fanteisio'n rhywiol, caethwasanaeth domestig, llafur dan orfod, cam-fanteisio troseddol, cynaeafu organau a masnachu pobl.

Daeth Deddf Caethwasiaeth Fodern i rym yn 2015. Fel corff cyhoeddus, mae'n arfer dda i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) lunio a chyhoeddi Datganiad Caethwasiaeth Fodern sy'n amlinellu'r risgiau posibl o gaethwasiaeth fodern ac sy'n nodi'r cynlluniau sydd ganddo ar gyfer lliniaru rhag y risgiau hyn.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i atal caethwasiaeth a masnachu pobl yn ei weithgareddau corfforaethol, ac i sicrhau bod ei gadwyni cyflenwi yn rhydd o gaethwasiaeth a masnachu pobl.

Mae trefniadau'n bodoli ar gyfer rhoi gwybod am bryderon ac amheuon am gaethwasiaeth fodern yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern (2015).

### Y cyfnod dan sylw yn y datganiad hwn

Y datganiad hwn yw Datganiad Caethwasiaeth Fodern cyntaf yr Awdurdod. Mae'r datganiad yn ymwneud â chamau a gweithgareddau yn ystod y flwyddyn ariannol rhwng 1af Ebrill 2020 a 31ain Mawrth 2021, ac mae'n nodi cydymffurfiaeth â gofynion Adran 54 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'r datganiad yn nodi ymrwymiad yr Awdurdod i sicrhau nad yw'n mynd ati i annog na chefnogi caethwasiaeth na masnachu pobl o fewn y sefydliad, y gweithgareddau busnes nac o fewn y cadwyni cyflenwi.

### Hyd a lled y datganiad hwn

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 28 o aelodau etholedig o chwe awdurdod cyfansoddol, ac mae'n darparu cyfarwyddyd a llywodraethiant ar gyfer darparu gwasanaethau ledled Gogledd Cymru. Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) sy'n darparu'r gweithgareddau o ddydd i ddydd i gyflawni amcanion yr Awdurdod.

Mae'r Gwasanaeth yn delio ag amrywiaeth eang o argyfyngau, o dai ar dân a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, i lifogydd a gollyngiadau cemegol. Mae gwaith helaeth yn cael ei gynnal gydag ysgolion, busnesau a chymunedau lleol i hybu diogelwch tân ac atal tân, ac i helpu i gadw pobl ac eiddo yn ddiogel.

## Strwythur y Gwasanaeth

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn un o dri o wasanaethau tân ac achub yng Nghymru. Mae'r Gwasanaeth yn helpu i amddiffyn poblogaeth sydd, fel yr amcangyfrifir, yn 678,461 o bobl mewn ardal sy'n 2,400 o filltiroedd sgwâr, yn ogystal â channoedd o filoedd o dwristiaid ac ymwelwyr â Gogledd Cymru bob blwyddyn.

Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi bron i 900 o staff mewn swyddi gweithredol a chefnogol. Mae'r Grŵp Gweithredol, sy'n cynnwys Prif Swyddog Tân, tri Phrif Swyddog Tân Cynorthwyol a Phrif Swyddog Cynorthwyol yn gyfrifol am sicrhau'r modd y mae'r Gwasanaeth yn cael ei redeg o ddydd i ddydd.

Mae'r Gwerthoedd Craidd yn dangos ymrwymiad y Gwasanaeth i werthfawrogi pobl drwy arfer a hyrwyddo tegwch, parch a bod yn ymrwymedig i onestrwydd, uniondeb a chyd-ymddiriedaeth. Mae'r berthynas sydd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru â chyflenwyr a phenderfyniadau am gadwyn cyflenwi'r Gwasanaeth yn ffactorau pwysig wrth ennill a chynnal yr ymddiriedaeth honno â'r gweithwyr a'r gymuned yn ehangach.

## Polisïau Perthnasol

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i fodloni nodau'r Ddeddf, ac mae ganddo'r polisïau canlynol i gefnogi ei ymrwymiad:

**Polisi Chwythu'r Chwiban** – Mae'r Gwasanaeth yn annog gweithwyr i gynnal y safonau uchaf o ymddygiad ymhob rhan o'r sefydliad. Mae'r Polisi Chwythu'r Chwiban yn galluogi gweithwyr i dynnu sylw at unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Gall gweithwyr fynegi pryder drwy'r Rheolwr Chwythu'r Chwiban drwy ffonio rhif ffôn cyfrinachol ar gyfer Chwythu'r Chwiban, sydd â gwasanaeth negeseuon 24 awr, drwy gysylltu â chyfeiriad e-bost pwrpasol ar gyfer Chwythu'r Chwiban neu drwy ysgrifennu at y Rheolwr Chwythu'r Chwiban.

**Polisi Caffael** - Drwy weithio mewn partneriaeth, mae Heddlu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaethau caffael i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Mae Heddlu Gogledd Cymru, ar ran y Gwasanaeth, wedi ymrwymo i sicrhau bod cyflenwyr yn cadw at y safonau moesegol uchaf. Rhaid i gyflenwyr ddangos eu bod yn darparu amodau gwaith diogel pan fo angen, yn trin gweithwyr ag urddas a pharch, ac yn gweithredu'n foesegol o fewn y gyfraith. Bydd cyflenwyr yn cael gwybod yn glir na fydd Heddlu Gogledd Cymru, wrth weithredu ar ran y Gwasanaeth, yn goddef caethwasiaeth na masnachu pobl yn y cadwyni cyflenwi nac mewn unrhyw ran o'r sefydliad. Cedwir yr hawl i derfynu cytundebau ag unrhyw drydydd parti y canfyddir ei fod wedi ymgymryd ag arferion cyflogaeth annheg.

**Llawlyfr Disgyblaeth** – Mae'r Llawlyfr yn ei gwneud yn glir i weithwyr beth yw'r safon o ymddygiad sy'n ddisgwyliedig ganddynt. Mae'r Gwasanaeth yn ymdrechu i gynnal y safonau uchaf o ymddygiad ac ymarweddiad moesegol gan weithwyr bob amser. Mae amrywiaeth a chynhwysiant yn un o Werthoedd Craidd y Gwasanaeth, gan alluogi pobl i gyflawni eu llawn botensial, ni waeth beth yw eu cefndir na'u hamgylchiadau, a hynny drwy hyrwyddo cyfle cyfartal a thrwy herio rhagfarn a chamwahaniaethu.

**Diogelu** – Oherwydd rôl y Gwasanaeth mewn digwyddiadau gweithredol ac ymgysylltu â'r gymuned ar gyfer diogelwch tân ac atal tân, mae'r Gwasanaeth wedi rhoi Polisi Diogelu ar waith i hybu lles ac i ddiogelu rhag niwed. Mae'r polisi'n nodi rolau a chyfrifoldebau pob gweithiwr i ddiogelu oedolion a phlant sy'n dioddef camdriniaeth, esgeulustod neu hunanesgeulustod, gan gynnwys caethwasiaeth fodern a masnachu pobl, neu sydd â risg o'r rheini.

**Recriwtio** - Mae pob gweithiwr sy'n gweithio i'r Gwasanaeth yn derbyn yr isafswm cyflog yn y DU o leiaf, ac fel rhan o'r broses recriwtio, byddant yn cael gwiriadau mewnfudo a gwiriadau cyn-cyflogi yn unol â chyfarwyddyd y Llywodraeth. Wrth gael staff dros dro drwy asiantaeth, gofynnir am sicrwydd fod yr isafswm cyflog yn y DU a'r gwiriadau mewnfudo yn cael eu defnyddio. Bydd gwiriadau DBS yn cael eu cynnal ar bob gweithiwr.

**Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** – Nod y Polisi yw darparu amrywiaeth a chydraddoldeb i bob gweithiwr, ac mae'n codi ymwybyddiaeth ac yn nodi sut mae'r Gwasanaeth yn ceisio creu awyrgylch diogel a chynhwysol i weithwyr a defnyddwyr gwasanaethau.

**Polisi Rheoli Cwynion** - Mae'r Polisi'n nodi ymrwymiad y Gwasanaeth i egwyddorion atebolrwydd, ansawdd a gofal cwsmer. Mae'r polisi'n darparu dull cyson ar gyfer delio â chwynion gan y cyhoedd, fel y gall y Gwasanaeth, pan fo'n briodol, gywiro ymddygiad, gweithdrefnau neu bolisi er mwyn gallu cynnal y safon uchaf o wasanaeth.

**Polisi Cwynion Cyflogaeth** – Mae'r Polisi'n amlinellu sut y gall gweithwyr geisio unioni unrhyw gŵyn a allai godi am eu cyflogaeth.

**Polisi Gwerthuso Swyddi a Chyflogau** – Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu cynllun gwerthuso swyddi i sicrhau bod pob gweithiwr yn cael ei dalu'n deg a chyfartal. Mae'r feddalwedd yn asesu swyddi drwy broses wrthrychol a systematig gan ddefnyddio set gyson o ffactorau, sgiliau a gofynion er mwyn cysoni strategaethau digolledu drwy sicrhau proses deg a thryloyw.

## Hyfforddiant

Rhaid i bob gweithiwr gael hyfforddiant gorfodol ar fater diogelu pobl sydd â risg, oherwydd mae llawer o'r gweithwyr yn dod ar draws aelodau o'r cyhoedd fel rhan o'u dyletswyddau, a sut i roi gwybod am amheuon o gaethwasiaeth neu weithgareddau masnachu pobl. Rhoddir yr hyfforddiant drwy becyn e-ddysgu ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, ac mae'n cwmpasu caethwasiaeth fodern.

## Rheoli cadwyni cyflenwi

Mae'r Gwasanaeth yn cymryd ei gyfrifoldebau fel prynwr o ddifri, ac mae wedi gweithredu i sicrhau bod ei gyflenwyr yn cyrraedd safonau moesegol llym er mwyn sicrhau bod y cadwyni cyflenwi yn rhydd o gaethwasiaeth.

Drwy weithio mewn partneriaeth, mae Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i hybu prosesau moesegol ar gyfer sicrhau adnoddau, a hynny drwy wneud y canlynol:

- Disgwyl i gyflenwyr gefnogi amodau gwaith sy'n gyfreithlon, teg a diogel;
- Mynnu bod cyflenwyr a'i his-gontractwyr yn cyrraedd safonau adnoddau moesegol er mwyn sicrhau tryloywder yn y gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn cynnwys cyrraedd safonau cyfreithiol newydd a rhai sydd wedi'u sefydlu eisoes.

Mae'r Gwasanaeth yn cadw at y Cod Ymarfer – Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, a ddatblygwyd i gefnogi'r broses o ddatblygu cadwyni cyflenwi mwy moesegol yn y sector cyhoeddus.

## Diwydrwydd dyledus a rheoli risgiau

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i sicrhau bod contractau'n cydymffurfio â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

Ar gyfer pob contract â sefydliadau y mae gofynion Rhan 6 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern yn gymwys iddynt, rhaid adolygu'r Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl sydd gan y sefydliad fel rhan o'r broses dendro i sicrhau bod unrhyw risgiau'n cael sylw addas.

Gwneir ymdrechion i fonitro a lleihau'r risg y bydd caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn y cadwyni cyflenwi. Bydd y rhan fwyaf o bryniannau'n digwydd o fewn contractau cyflenwi neu fframweithiau sy'n bodoli eisoes, e.e. y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, sydd wedi cael eu negodi ac sydd â gofyniad i gyflenwyr gael polisïau addas rhag caethwasiaeth a masnachu pobl.

Fel rhan o'r broses dendro, rhaid i gyflenwyr posibl gwblhau holiadur hunanddatgan sy'n ceisio cael cadarnhad a sicrwydd o'u cydymffurfiaeth â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac o natur y gwiriadau y maent yn eu cynnal ar eu cadwyni cyflenwi eu hunain.

## Cynllun Gweithredu

### Yn ystod 2020/21, mae'r Gwasanaeth wedi:

- Datblygu, cadarnhau a chyhoeddi Polisi Diogelu;
- Datblygu a darparu hyfforddiant ar ddiogelu, sy'n ofyniad gorfodol i bob gweithiwr;
- Llunio Datganiad Caethwasiaeth Fodern cyntaf y Gwasanaeth; ac
- Adolygu a diweddaru'r Polisi Chwythu'r Chwiban.

### Yn ystod 2021/22, bydd y Gwasanaeth yn:

- Ystyried hyfforddiant priodol ar fater caffael, er mwyn cefnogi'r dulliau moesegol sydd gan y Gwasanaeth o sicrhau adnoddau;
- Ymgysylltu â chyflenwyr allweddol i ddeall yn well beth yw'r camau maent yn eu cymryd i liniaru rhag risg a gan ddefnyddio dylanwad i annog cyflenwyr sy'n methu yn eu rhwymedigaethau i weithredu;
- Sicrhau bod cyflenwyr yn cael eu holi a oes ganddynt Ddatganiad Caethwasiaeth Fodern fel rhan o'r broses dendro; ac
- Adolygu'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

**Cafodd y datganiad hwn ei gymeradwyo ar DYDDIAD gan y Prif Swyddog Tân.**

**Bydd y datganiad yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn.**

**Llofnodwyd:**……………………………………………………………

**Llythrennau bras:**…………………………………………………………

*This document is available in English*

**Eitem ar yr Agenda 15**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Mehefin 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Julie Brown (07787578430)** |
| Pwnc | **Bwrdd Pensiwn Lleol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Adroddiad Blynyddol 2020/21** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol i aelodau'r Awdurdod. Mae'n nodi gwaith y bwrdd yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21. Mae'r adroddiad blynyddol ar gael yn atodiad 1.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol yn nodi'r gwaith a gafodd ei wneud gan y bwrdd yn ystod 2020/21, ac mae'n darparu rhaglen waith ar gyfer 2021/22.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2020/21, i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

**SYLWADAU'R BWRDD PENSIWN LLEOL**

4 Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ei ystyried gan y Bwrdd Pensiwn Lleol ar 21 Ebrill 2021, a gwnaethpwyd argymhelliad i'w gymeradwyo.

**CEFNDIR**

5 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith a wnaed gan Fwrdd Pensiwn Lleol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod). Yr Awdurdod yw'r Rheolwr Cynllun fel y diffinnir o dan Adran 4 o Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol wedi'i sefydlu yn unol ag Adran 5 o'r Ddeddf honno.

**GWYBODAETH**

6 Cafodd y gofynion llywodraethu newydd ynghylch pensiynau eu cyflwyno o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer trefniadau llywodraethu mwy eglur, gyda rolau penodol wedi'u diffinio, cyhoeddi mwy o wybodaeth yn gyson, ac arferion gweinyddu sy'n cyd-fynd â'r rhai yn y sector preifat.

7 Roedd Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethu) 2015, yn ymwneud â chreu a mynd ati i weithredu pensiynau lleol wedi dod i rym ar 1 Ebrill 2015. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol mewn perthynas â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân erbyn 1 Ebrill 2015.

8 Rôl a chylch gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo'r Awdurdod yn ei waith fel Rheolwr Cynllun drwy wneud yn siŵr ei fod yn gweinyddu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn effeithiol ac yn effeithlon, a'i fod yn cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol. Er mwyn cynorthwyo gyda mater trylowyder, rhaid i'r Rheolwr Cynllun gyhoeddi adroddiad blynyddol am ei Fwrdd Pensiwn Lleol.

9 Fel y nodir yng nghylch gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol, dylai'r adroddiad blynyddol gynnwys y canlynol:

- crynodeb o waith y Bwrdd Pensiwn Lleol, a rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod;
- manylion meysydd pryder a adroddwyd i'r Bwrdd, neu a godwyd gan y Bwrdd, ynghyd â'r argymhellion a wnaed;
- manylion unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau sydd wedi codi i aelodau unigol o'r Bwrdd Pensiwn Lleol, a sut y cafodd y rhain eu rheoli
- unrhyw feysydd risg neu bryder y mae'r Bwrdd yn dymuno eu codi gyda'r Rheolwr Cynllun;
- manylion yr hyfforddiant a gafwyd, ac anghenion hyfforddi a nodwyd
- crynodeb o waith y Bwrdd Pensiwn Lleol, a chynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod
- manylion unrhyw dreuliau a chostau a gafodd y Bwrdd Pensiwn Lleol, ac unrhyw dreuliau a ragwelir yn y flwyddyn i ddod.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad ydynt yn berthnasol |
| Cyllideb | Mae cost y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei ariannu o'r gyllideb gyfredol ar gyfer Gwasanaethau Aelodau |
| Cyfreithiol | Cafodd y gofynion llywodraethu newydd ar gyfer pensiynau eu cyflwyno o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Rheoliadau Llywodraeth (Diwygio) Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015. |
| Staffio | Ystyrir nad ydynt yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ystyrir nad oes angen delio ag unrhyw faterion oherwydd mae'r argymhellion yr un mor berthnasol i bob Aelod ni waeth beth fo'r nodweddion gwarchodedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl. |
| Risgiau | Rhaid i bob ATA gydymffurfio â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Byrddau Pensiwn Lleol. |

Atodiad 1

# Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân
# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Adroddiad Blynyddol
# Bwrdd Pensiwn Lleol
# 2020/21

**Cynnwys**


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| • | Cynnwys | 3 |
| • | Rolau a Swyddogaethau | 3 |
| • | Aelodaeth a chyfarfodydd y Bwrdd | 3 |
| • | Polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau | 4 |
| • | Gwybodaeth a Dealltwriaeth | 4 |
| • | Rhaglen Waith 2020-21 | 5 |
| • | Rhaglen Waith 2021-22 | 7 |

## 1.0 Adroddiad Blynyddol

Dyma Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Lleol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Bwrdd), sy'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Mae'r adroddiad yn cynnwys sylwebaeth ar y canlynol:

- manylion unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau sydd wedi codi mewn perthynas ag aelodau'r Bwrdd Pensiwn;
- manylion yr hyfforddiant a gafwyd, a'r anghenion hyfforddi a nodwyd ar gyfer aelodau'r Bwrdd Pensiwn;
- crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd yn ystod 2020/21;
- meysydd pryder neu risg a adroddwyd neu a godwyd gan y Bwrdd; ac
- y blaen-raglen waith ar gyfer 2021/22.

## 2.0 Rolau a Swyddogaethau

Yn unol ag Adran 5 ac Adran 30 (1) o Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Rheoliad 4A o Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethu) 2015, cafodd Bwrdd Pensiwn Lleol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Bwrdd) ei sefydlu yn Ebrill 2015. Rôl a chylch gorchwyl y Bwrdd yw cynorthwyo Rheolwr y Cynllun (sef Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru) i sicrhau cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- Y deddfau a'r rheoliadau perthnasol;
- Unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun;
- Y gofynion a osodir gan y Rheoleiddiwr mewn perthynas â'r Cynllun; a
- Sicrhau bod y Cynllun yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu'n effeithiol.

Disgwylir i'r Bwrdd ategu a helaethu trefniadau presennol yr Awdurdod ar gyfer rheoli cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân. Nid yw'n disodli'r trefniadau presennol ac nid yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau. Yn hytrach, mae wedi'i gynllunio i fod yn gyfaill beirniadol i'r Awdurdod a'i swyddogion pan ydynt yn gweithredu fel rheolwr cynllun.

## 3.0 Aelodaeth a chyfarfodydd y Bwrdd

Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd y Bwrdd yn cynnwys 10 aelod fel a ganlyn:

- Pump yn cynrychioli'r cyflogwr, sef tri o aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Clerc yr Awdurdod (neu ddirprwy a enwebir) a Thrysorydd yr Awdurdod.
- Pump yn cynrychioli'r gweithwyr – mae pob un o bob corff cynrychioliadol sy'n gysylltiedig yn swyddogol ag Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

Yn ogystal ag aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol, mae'r swyddogion allweddol a ganlyn yn cefnogi'r Bwrdd ac yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd:

- Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) a'r
- Rheolwr Pensiynau.

Ar hyn o bryd, mae cyfnod penodiad pob aelod yn cyd-fynd ag etholiadau'r cynghorau.

Daeth aelodaeth i ben i ddau aelod yn ystod y cyfnod; yn dilyn proses benodi yn unol â'r Cylch Gorchwyl, cafodd y ddwy swydd ei llenwi ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

**Cadeirydd y Bwrdd**

Mae Cadeirydd y Bwrdd yn cylchdroi bob dwy flynedd rhwng aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwyr ac aelod sy'n cynrychioli aelodau'r cynllun.

Etholwyd y y Cynghorydd B Apsley yn Gadeirydd am y cyfnod 2019-2021. Enwebir y Cadeirydd i sefyll ar Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn ogystal.

Mae'r Bwrdd wedi cwrdd bedair gwaith yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol hwn.

## 4.0 Polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau

Mae Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yn mynnu nad oes gan aelod o fwrdd pensiwn fuddiannau sy'n gwrthdaro. Y diffiniad o 'wrthdaro rhwng buddiannau' yw 'buddiant ariannol neu arall sy'n debygol o beryglu'r modd y mae person yn cyflawni swyddogaethau fel aelod o fwrdd pensiwn'. Mae'r Ddeddf yn eglur nad yw bod yn aelod o un o Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn golygu gwrthdaro rhwng buddiannau, felly ni fyddai hynny'n atal aelod o gynllun rhag gwasanaethau ar y Bwrdd.

Mae gan y Bwrdd bolisi ar gyfer rheoli achosion posibl o wrthdaro rhwng buddiannau er mwyn sicrhau nad ydynt yn troi'n achosion gwirioneddol o wrthdaro, ac mae pob aelod o'r Bwrdd yn gyfarwydd â'r polisi. Hefyd, mae gwrthdaro rhwng buddiannau yn eitem sefydlog ar holl agendâu'r Bwrdd, ac mae unrhyw fuddiannau a nodir gan yr aelodau yn cael eu cofnodi er mwyn gallu cymryd camau priodol i reoli'r gwrthdaro.

Yn ystod y cyfnod perthnasol, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau gan unrhyw aelod, gan neb oedd yno i gynghori na gan neb oedd yn mynychu.

Cliciwch i weld y polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau.

## 5.0 Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae'n un o ofynion statudol Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 y dylai aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol fod â'r gallu i fod yn gyfarwydd â materion manwl yn ymwneud â phensiynau, ac i ddatblygu adnabyddiaeth ohonynt, er mwyn cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol.

Rhaid i bob unigolyn a benodir i'r Bwrdd fod â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gyfraith sy'n ymwneud â phensiynau a materion eraill a ragnodir mewn deddfwriaeth arall.

Dylai aelod o'r Bwrdd fod â dealltwriaeth o'r hyn sy'n briodol i'w swydd a dylai fod yn gallu canfod a herio methiant i gydymffurfio â'r canlynol:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr tân;
- Deddfwriaeth arall yn ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r cynlluniau;
- Gofynion a osodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau; neu
- Y safonau a'r disgwyliadau a nodir mewn unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Pan gaiff yr aelodau eu penodi, rhaid iddynt, o fewn chwe mis, gwblhau'r modiwlau hyfforddi ar-lein sydd ar gael ar wefan y Rheoleiddiwr Pensiynau; hefyd, mae'r Awdurdod yn darparu hyfforddiant cynefino parhaus yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu rôl.

Mae Rheolwr y Cynllun yn cadw cofnodion priodol o'r gweithgareddau dysgu a wneir gan aelodau unigol a gan y Bwrdd yn ei gyfanrwydd. Mae hyn o gymorth i'r Awdurdod a'r aelodau ddangos eu bod yn cydymffurfio, os oes angen, â'r gofyniad cyfreithiol ac yn cofnodi sut lliniarwyd risgiau sy'n gysylltiedig â bylchau mewn gwybodaeth. Bob blwyddyn, mae'r aelodau'n llenwi ffurflen hunan-asesu ar gyfer dadansoddi anghenion hyfforddi a gwybodaeth, a defnyddir y rhain i baratoi blaen-raglen hyfforddi. Mae'r gwaith o hyfforddi aelodau'r Bwrdd yn cael ei wneud yn fewnol yn bennaf, heb gost uniongyrchol; mae'r digwyddiadau cenedlaethol, megis cynhadledd y Gymdeithas Llywodraeth Leol, wedi bod yn rhad ac am ddim hyd yma. Pan fo angen i aelodau'r Bwrdd deithio i fynychu digwyddiadau hyfforddi mae'r gost hon wedi'i chynnwys mewn cyllidebau sy'n bodoli eisoes.

Isod, ceir rhestr yn dangos yr hyfforddiant a gafodd aelodau'r Bwrdd yn ystod 2020/21:

| Dyddiad | Pynciau |
|---|---|
| 26/10/20 | Y Gymdeithas Lywodraeth Leol - Y Chwe Maes Llywodraethu Allweddol |
| 20/01/21 | Cyflog Pensiynadwy |

## 6.0 Rhaglen Waith 2020/21

Mae'r Bwrdd wedi cwrdd bedair gwaith yn ystod y flwyddyn, sef ar 27 Mai 2020, 10 Awst, 26 Hydref a 20 Ionawr 2021. Mae'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn wedi cael ei ddiffinio gan y Cylch Gorchwyl. Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo ac yn adolygu'r Cylch Gorchwyl bob blwyddyn ac mae'r copi diweddaraf ar gael yma.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, bu'r Bwrdd yn ystyried y materion penodol a ganlyn:

- adolygu a chymeradwyo'r Cylch Gorchwyl
- adroddiad Blynyddol 2019/20
- yr her gyfreithiol cenedlaethol ynglŷn â threfniadau pontio cynllun pensiwn (Dyfarniad McCloud)
- dyfarniad yr Uchel Lys ynghylch cydrannau cyflog pensiynadwy (Booth vs ATA Canolbarth a Gorllewin Cymru)
- Y diweddaraf ynghylch dadansoddi anghenion hyfforddi a gwybodaeth
- Adolygu'r polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau
- Ystyried cwynion a gafwyd dan y Gweithdrefnau Mewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau, ac achosion yr Ombwdsmon Pensiynau
- Adolygu'r Gofrestr Risg
- cynlluniau parhad busnes yn ystod y pandemig COVID-19.

Mae pob agenda hefyd yn cynnwys yr eitemau sefydlog a ganlyn:

- Datgan Buddiannau
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf
- Adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân (gan gynnwys diweddariad deddfwriaethol)
- Adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gweinyddwyr (Cronfa Bensiwn Dyfed)
- Diweddariad Bwrdd Cynghori'r Cynllun
- Anghenion hyfforddi
- Y Gofrestr Risgiau
- Materion i'w huwchgyfeirio i'r ATA llawn.

Ers i'r Bwrdd Pensiwn Diffoddwyr Tân Lleol gael ei sefydlu yn 2015, mae gwaith y Bwrdd wedi cael ei siapio gan aelodau'r Bwrdd a gan swyddogion sy'n cefnogi'r Bwrdd. Datbygwyd rhai adroddiadau rheolaidd, sef:

- Adroddiad o'r enw 'Adroddiad Diweddaru am Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân', sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am feysydd arwyddocaol o ran gwaith pensiwn, ac mae'n cynnwys materion lleol a chenedlaethol. Yn ogystal â gwella gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau'r bwrdd, mae'r adroddiad rheolaidd hwn yn ennyn trafodaeth yn y Bwrdd ynghylch effaith materion ar aelodau'r Cynllun Pensiwn ac ynghylch y modd y mae llwythi gwaith yn cael eu rheoli. Mae hyn yn gymorth i gyflawni pwrpas y Bwrdd, sef sicrhau bod llywodraethu a gweinyddu effeithiol yn digwydd;

- Adroddiad o'r enw 'Adroddiad Diweddaru am Gronfa Bensiwn Dyfed', ei bwrpas yw rhoi sicrwydd fod y cynllun yn cael ei weinyddu'r gywir. Yn ogystal â darparu gwybodaeth am reoleiddio, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar faterion penodol yn ymwneud â llwyth gwaith, megis cysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig, ansawdd data, apeliadau, achosion o dorri'r rheolau, a lefelau gweithgarwch yn 'Fy Mhensiynau Ar-lein';
- Mae meysydd penodol o'r Gofrestr Risgiau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Reolwr y Cynllun, ac maent yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ymhob cyfarfod, gan dynnu sylw at unrhyw newidiadau. Mae hyn yn golygu bod y Bwrdd yn gallu cadw golwg ar y risigau allweddol a'r mesurau rheoli sydd wedi cael eu cynllunio i reoli'r risgiau hynny.

Er mwyn gwella'r gwaith o weinyddu a llywodraethu'r swyddogaeth bensiynau yn effeithlon ac effeithiol, cafodd yr argymhelliad a ganlyn ei wneud gan y Bwrdd, a chafodd ei gyflawni yn ystod y flwyddyn:

- Y Gwasanaeth i fynd i'r afael a gwella'r nifer o gofrestriadau ar y cyfleuster 'Fy Mhensiwn Ar-lein';

Mae mwy o fanylion ar gael yn agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd uchod.

## 7.0 Rhaglen Waith 2021/22

Mae Bwrdd Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnal rhaglen waith a gaiff ei hystyried ymhob cyfarfod. Gan fod y Bwrdd wedi cwblhau nifer o weithgareddau hyfforddi erbyn hyn, bydd yn dechrau dewis pynciau i'w dadansoddi'n fanwl gyda'r bwriad o wneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub fel y bo'r angen.

Dyma'r Rhaglen Waith ar gyfer 2021/22:

- Ethol Cadeirdd;
- Adolygu'r Cylch Gorchwyl, a chytuno ar Adroddiad Blynyddol 2020/21;
- Gwneud dadansoddiad o anghenion hyfforddi gydag aelodau'r Bwrdd, a chytuno ar raglen hyfforddi sy'n cynnwys diweddariadau a chyflwyniadau ar faterion cyfredol yn ymwneud â phensiynau, fel y bo angen;
- Adolygu a diweddaru'r gofrestr risgiau;
- Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i bob cyfarfod ynghylch materion rheoleiddio sydd mewn cylchlythyrau gan Lywodraeth Cymru a bwletinau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol;
- Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am waith Cynllun Cynghori Cynlluniau (Cymru);
- Arolygon Pensiynau Blynyddol ac ymgynghoriadau (os ydynt yn berthnasol);
- Monitro'r modd y mae'r Cynllun Gwella Data sydd gan y gweinyddwr yn cael ei gyflawni;
- Adolygu canlyniad adroddiadau archwilio mewnol ac allanol;
- Monitro'r gwaith o adnewyddu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth.
- Parhau i wella cofrestriadau ar *My Pensions Online*; ac
- Asesu'r gofynion data a meddalwedd i'w rhoi ar waith.

*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg* **Eitem ar yr Agenda 16**

| | | |
|---|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** | |
| Dyddiad | **21 Mehefin 2021** | |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** | |
| Swyddog Cyswllt | **Julie Brown (07787578430)** | |
| Pwnc | **Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân: Cylch Gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol** | |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno Cylch Gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 i aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus (2013) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod, fel Rheolwr Cynllun ar gyfer Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol (y Bwrdd). Cafodd y Bwrdd ei sefydlu yn 2015, ac mae'r Cylch Gorchwyl yn darparu'r fframwaith llywodraethu er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol. Mae'r Cylch Gorchwyl yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, ac mae ar gael yn Atodiad 1.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo cylch gorchwyl diwygiedig y Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer 2021-22, cyn ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

**SYLWADAU'R BWRDD PENSIWN LLEOL**

4 Cafodd y Cylch Gorchwyl a gynigir ei ystyried gan y Bwrdd Pensiwn Lleol (Bwrdd) yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2021. Mae'r Bwrdd wedi argymell bod yr Awdurdod yn ei gymeradwyo.

**CEFNDIR**

5 Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol (y Bwrdd) wedi'i sefydlu yn unol â gofynion Adran 5 o Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Ystyrir mai Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yw'r Rheolwr Cynllun, felly mae'n gyfrifol am sefydlu'r Bwrdd a sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol.

**GWYBODAETH**

6 Rhaid i bob Rheolwr Cynllun bennu Cylch Gorchwyl y Bwrdd er mwyn darparu fframwaith ar gyfer ei weithrediad.

7 Bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei adolygu bob blwyddyn neu yn dilyn unrhyw newidiadau statudol neu reoleiddiol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir yn amherthnasol |
| Cyllideb | Dim goblygiadau o ran costau |
| Cyfreithiol | Cyflwynwyd y gofynion llywodraethu newydd mewn perthynas â phensiynau o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. |
| Staffio | Ystyrir yn amherthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ystyrir nad oes unrhyw faterion y dylid mynd i'r afael â hwy gan fod yr argymhellion yn berthnasol i bob Aelod waeth beth fo'u nodwedd warchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl. |
| Risgiau | Rhaid i'r ATAau gydymffurfio gyda chyfarwyddyd y Rheoleiddiwr Pensiynau ynghylch y trefniadau llywodraethu ar gyfer Byrddau Pensiwn Lleol. |

Atodiad 1

**Cylch Gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cylch gorchwyl ar gyfer Bwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiynau Diffoddwyr Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Diwygio) (Llywodraethu) 2014.

## Rheoli'r Cynllun

2. Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel yr awdurdod gweinyddu, yw Rheolwr y Cynllun. Caiff ei swyddogaethau eu cyflawni yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod gan y Trysorydd a'r Prif Swyddog Tân.

## Y Bwrdd Pensiwn Lleol

3. Rôl y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC), fel yr awdurdod gweinyddu, i wneud y canlynol:

   - sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau'r cynllun a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r cynllun;
   - sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a osodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau mewn perthynas â'r cynllun;
   - sicrhau llywodraethiad effeithiol ac effeithlon i'r Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân ar gyfer Cronfa Bensiynau Dyfed;
   - goruchwylio'r materion hyn fydd rôl y Bwrdd, nid gwneud penderfyniadau;
   - cyflawni unrhyw waith perthnasol fel y gofynnir amdano;
   - mewn unrhyw faterion eraill y gallai rheoliadau'r cynllun eu pennu.

4. Bydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar lywodraethu a gweinyddu a gyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Bydd y Bwrdd hefyd yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion o ran gwybodaeth a dealltwriaeth yng Nghod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau.

5. Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn atebol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau, Bwrdd Cynghori Cenedlaethol y Cynllun a'r Awdurdod Gweinyddu yn eu rôl fel Rheolwr y Cynllun.

6. Bydd prif swyddogaethau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cynnwys y canlynol, ond nid yn gyfyngedig iddynt:

   - adolygu'r prosesau, y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau perthnasol;
   - ceisio sicrwydd bod y rhain yn cael eu dilyn ac y cedwir atynt o ran penderfyniadau ynghylch Pensiynau;
   - ceisio sicrwydd bod perfformiad o ran gweinyddu yn cydymffurfio â fframwaith perfformiad yr Awdurdod, a bod y trefniadau monitro yn ddigonol ac yn gadarn;

- ystyried pa mor effeithiol yw'r cyfathrebu gyda'r cyflogwyr ac aelodau'r cynlluniau, gan gynnwys adolygu'r Strategaeth Gyfathrebu;
- ystyried a rhoi sylwadau ar argymhellion archwilio mewnol ac adroddiadau archwilwyr allanol.

7. Bydd unrhyw gŵyn neu honiad ynghylch torri'r Rheoliadau a ddygir i sylw'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael eu trin yn unol â'r Cod Ymarfer fel y'i cyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

**Rhybudd o Gyfarfodydd a pha mor aml y cânt eu cynnal**

8. Rhaid i'r Bwrdd Pensiwn Lleol gyfarfod yn ddigon rheolaidd er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau'n effeithiol; trefnir pedwar cyfarfod ymhob blwyddyn ariannol.

9. Bydd y Swyddog Cyswllt Aelodau yn hysbysu holl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol am bob cyfarfod o'r Bwrdd, gan gynnwys nodi'r dyddiad, y lleoliad ac amser y cyfarfod, a bydd yn sicrhau bod cofnod ffurfiol o drafodion y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei gadw.

10. Darperir papurau o leiaf dri diwrnod gwaith cyn pob un o'r cyfarfodydd ffurfiol o'r Bwrdd Pensiwn Lleol.

11. Bydd yr holl agendâu a phapurau a chofnodion nad ydynt yn gyfrinachol yn cael eu cyhoeddi ar wefan GTAGC, ynghyd â Chylch Gorchwyl y Bwrdd a manylion aelodaeth y Bwrdd.

**Aelodaeth**

12. Bydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cynnwys dim llai na 6 aelod (i gyd), a rhaid iddo gynnwys cydbwysedd cyfartal o gynrychiolwyr o'r cyflogwr ac aelodau'r cynllun (gweithwyr). Bydd ei gyfansoddiad fel a ganlyn:

| **Etholaeth** | **Diffiniad/Cyfyngiadau** |
|---|---|
| Cyflogwr | Cynrychioli GTAGC |
| Aelod o'r Cynlluniau (gweithwyr) | Cynrychioli pob aelod o'r cynlluniau (gweithredol, wedi gohirio, a phensiynwr) |

13. Bydd cyfnod swydd yr holl aelodau yn cyd-fynd ag etholiadau'r cynghorau ac felly disgwylir i'r aelodaeth barhau tan 2022. Caiff yr aelodau, ar ddiwedd eu cyfnod, fynegi eu dymuniad i gael eu hystyried i'w hailethol.

14. Rhaid i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol fodloni'r gofynion pwysig o ran presenoldeb a hyfforddiant er mwyn cadw eu haelodaeth yn ystod y cyfnod hwn. Rhaid i'r holl aelodau:

- ymdrechu i fod yn bresennol ymhob cyfarfod o'r Bwrdd
- gydymffurfio â'r cynllun hyfforddi a gaiff ei lunio gan y Rheolwr Pensiynau
- gydymffurfio â Chod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau.

15. Bydd gan bob un Cynrychiolydd Cyflogwr a Chynrychiolydd Aelod y Cynllun yr hawl i bleidleisio yn unigol.

16. Rhaid i bob aelod o Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân gael cyfle cyfartal o ran cael eu henwebu ar gyfer rôl cynrychiolydd aelodau.

17. I ddiben penodi cynrychiolwyr y cyflogwr ar y Bwrdd, gofynnir am enwebiadau gan holl aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub. Bydd y Trysorydd a'r Swyddog Monitro (neu ddirprwy) hefyd yn darparu cynrychiolaeth cyflogwr.

18. I ddiben penodi cynrychiolwyr yr aelodau cynllun (gweithwyr) ar y Bwrdd, gofynnir am enwebiadau drwy Gynrychiolwyr Adrannau a Fforwm yr Undebau Llafur, gydag enwebiadau pellach yn dod drwy hysbyseb a roddir ar wefan yr Awdurdod. Pan fo mwy na thri enwebiad yn dod i law, bydd yr ymgeiswyr yn cael eu hystyried, eu rhoi ar y rhestr fer a'u cyfweld gan banel penodi a fydd wedyn yn gwneud argymhellion i'r Prif Swyddog Tân gael eu penodi'n ffurfiol.

19. Os bydd aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol sy'n gweithredu fel cynrychiolwyr y cyflogwr yn gadael cyflogaeth y cyflogwr y maent yn ei gynrychioli, ni fydd mwyach yn gymwys i fod ar y Bwrdd.

20. Pan fo aelod o'r Bwrdd yn absennol yn gyson, neu'n methu â bodloni gofynion pwysig o ran presenoldeb a hyfforddi fel y nodir yn (13) uchod, bydd yr aelodaeth honno'n cael ei hadolygu. Yn achos cynrychiolydd sy'n aelod, gwneir hyn gan gynrychiolydd Rheolwr y Cynllun, a gaiff argymell bod yr aelodaeth yn cael ei dirymu os bydd yn ystyried bod angen hynny.
Mewn achos o'r fath, bydd hawl i apelio i'r Prif Swyddog Tân cyn unrhyw argymhelliad. Yn achos cynrychiolydd cyflogwr, bydd unrhyw benderfyniad yn cael ei ystyried gan gadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub.

21. Os bydd cyflogwr neu gynrychiolydd aelodau'r cynlluniau yn dymuno ymddiswyddo rhaid iddo ysgrifennu at y Prif Swyddog Tân, gan roi rhybudd o fis o leiaf.

22. Bydd Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cylchdroi bob dwy flynedd rhwng aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwr ac aelod sy'n cynrychioli aelodau'r cynlluniau.

23. Rôl y cynrychiolydd sy'n gweithredu fel Cadeirydd yw:

- cytuno ar yr agenda, a'i osod, ar gyfer cyfarfod o'r Bwrdd
- rheoli'r cyfarfodydd i sicrhau bod busnes y cyfarfod yn cael ei gyflawni yn yr amser y cytunwyd arno
- sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn dangos y parch dyledus at y broses, a bod pob barn yn cael ei chlywed a'i hystyried yn llwyr
- ymdrechu cymaint ag y bo modd i gael consensws fel canlyniad
- sicrhau bod pob cam gweithredu a'r rhesymeg dros benderfyniadau yn eglur, a bod cofnod priodol ohonynt.

24. Oherwydd natur arbenigol gwaith y Bwrdd, disgwylir i holl aelodau'r Bwrdd fod yn bresennol yn bersonol, a hynny ymhob cyfarfod, heb ddarpariaeth ar gyfer dirprwy. Fodd bynnag, fe ganiateir dirprwyon; ond byddai rhaid iddynt fod yn gyfrifol am ddiweddaru eu hyfforddiant eu hunain i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â materion pensiwn.

25. Caiff y Bwrdd, gyda chymeradwyaeth y Prif Swyddog Tân, gyfethol personau nad ydynt yn aelodau i gynorthwyo'r Bwrdd am gyfnod neu ar gyfer tasg benodol pryd y byddai hynny'n darparu sgiliau, gwybodaeth neu brofiad ychwanegol. Ni fyddai caniatâd i'r aelodau cyfetholedig bleidleisio.

**Cworwm**

26. Rhaid i bedwar o blith aelodau'r Bwrdd fod yn bresennol er mwyn cael cworwm mewn cyfarfod. Os bydd y Cadeirydd yn absennol o gyfarfod ac y mae yno gworwm, rhaid i'r aelodau sy'n bresennol ddewis Cadeirydd i lywyddu dros y cyfarfod hwnnw.

**Gwybodaeth a Sgiliau**

27. Rhaid i aelod o'r Bwrdd Pensiwn fod yn gyfarwydd â'r canlynol:

- y ddeddfwriaeth a chyfarwyddyd cysylltiedig y pedwar o Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân;
- unrhyw bolisïau, gweithdrefnau neu brosesau gwneud penderfyniadau ynglŷn â gweinyddu'r Cynlluniau a fabwysiedir gan GTAGC a Chronfa Bensiwn Dyfed.

28. Rhaid i aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol gael gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gyfraith sy'n gysylltiedig â phensiynau ac unrhyw faterion eraill a ragnodir mewn Rheoliadau.

29. Mater i aelodau'r Bwrdd Pensiwn yw cael eu bodloni bod ganddynt y graddau priodol o wybodaeth a dealltwriaeth i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau'n gywir fel aelod o'r Bwrdd Pensiwn.

30. Mae'n ofynnol i aelodau'r Bwrdd Pensiwn allu dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, ac i loywi ac i gadw eu gwybodaeth yn gyfoes. Felly, mae'n ofynnol i aelodau'r Bwrdd Pensiwn gadw cofnod ysgrifenedig o hyfforddiant a datblygiad perthnasol.

31. Rhaid i aelodau'r Bwrdd Pensiynau gadarnhau i'r Rheolwr Pensiynau o fewn chwe mis ar ôl ymuno â'r Bwrdd eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant Rheoleiddiwr Pensiynau.

32. Yn ystod y cyfarfod cyntaf y flwyddyn ariannol, mae'n rhaid i aelodau'r Bwrdd Pensiynau ystyried a chytuno ar raglen hyfforddi flynyddol.

## Safonau Ymddygiad a Gwrthdaro Buddiannau

33. Mae rôl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn gofyn am y safonau uchaf o ymddygiad, ac felly bydd 'saith egwyddor bywyd cyhoeddus' yn berthnasol i holl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol. Bydd yn ofynnol i aelodau'r Bwrdd gadw at god ymddygiad aelodau a pholisïau Diogelu Data GTAGC. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd weithredu o fewn y cylch gorchwyl hwn bob amser. Yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, rhaid i aelod o'r bwrdd beidio â chael buddiant ariannol neu fuddiant arall a allai niweidio eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau ar y Bwrdd. Nid yw hyn yn cynnwys buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n codi dim ond drwy fod yn aelod o'r GTA.

34. Felly, bydd yn ofynnol i holl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol ddatgan unrhyw fuddiannau ac unrhyw wrthdaro posib rhwng buddiannau yn unol â gofynion Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Chod y Rheoleiddiwr Pensiynau. Mae'r datganiadau hyn yn ofynnol fel rhan o'r broses benodi, yn ogystal ag ar adegau rheolaidd drwy gydol cyfnod aelod.

## Adrodd

35. Disgwylir i'r Bwrdd lunio adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub, a dylai hwnnw gynnwys:

- crynodeb o waith y Bwrdd Pensiwn Lleol a cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod
- meysydd pryder yr adroddwyd yn eu cylch i'r Bwrdd neu a godwyd gan y Bwrdd, a'r argymhellion a wnaed
- manylion unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau a gododd o ran aelodau unigol y Bwrdd Pensiwn Lleol, a sut y cafodd y rhain eu rheoli
- unrhyw feysydd risg neu bryder y mae'r Bwrdd yn dymuno eu codi gyda Rheolwr y Cynllun
- manylion yr hyfforddiant a gafwyd a'r anghenion hyfforddi a ganfuwyd
- manylion unrhyw dreuliau a chostau a gafwyd gan y Bwrdd Pensiwn Lleol ac unrhyw dreuliau a ragwelir yn y flwyddyn i ddod.

36. Er mai dim ond un adroddiad blynyddol y mae gofyn i'r Bwrdd ei lunio, caiff cofnodion pob cyfarfod o'r Bwrdd eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

37. Os bydd gan y Bwrdd unrhyw bryderon y credir eu bod yn ddigon difrifol i adrodd yn eu cylch ar lefel uwch na'r hyn sy'n safonol (sef i'r Rheolwr Pensiynau), dylent adrodd yn eu cylch i'r Prif Swyddog Tân. Gallai hyn gynnwys adegau, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini, pryd y bydd y Bwrdd yn teimlo na weithredwyd ar sail argymhellion. Mewn achosion eithafol megis torri'r Rheoliadau yn sylfaenol neu fethiant sylfaenol gan yr Awdurdod Gweinyddu i sicrhau bod y gronfa'n cael ei llywodraethu'n effeithiol, gall y Bwrdd ystyried adrodd i Fwrdd Cynghori Cenedlaethol y Cynllun a/neu'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

**Cydnabyddiaeth Ariannol**

38. Bydd cydnabyddiaeth ariannol i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei gyfyngu i ad-dalu'r treuliau gwirioneddol am fynychu cyfarfodydd a hyfforddiant y Bwrdd.
Disgwylir y bydd cyflogwyr aelodau'r bwrdd yn darparu gallu priodol i ganiatáu i'r aelod gyflawni'r rôl hon o fewn eu diwrnod gwaith arferol heb unrhyw ostyngiad yn eu cyflog.

39. Dylid cyflwyno hawliadau am dreuliau 1 mis fan bellaf ar ôl iddynt ddigwydd.

**Cyhoeddi Gwybodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol**

40. Rhoddir gwybodaeth gyfoes ar wefan GTAGC i ddangos y canlynol:

- enwau a gwybodaeth am aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol
- sut y mae aelodau'r cynllun a'r cyflogwyr yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Pensiwn Lleol
- cyfrifoldebau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn ei gyfanrwydd
- cylch gorchwyl a pholisïau llawn y Bwrdd Pensiwn Lleol, a sut y maent yn gweithredu
- Proses benodi'r Bwrdd Pensiwn Lleol.

**Adolygu**

41. Mabwysiadwyd yn ffurfiol y cylch gorchwyl hwn gan y Bwrdd yn ei gyfarfod cyntaf ar 20 Ebrill 2015, ac mae'n cael ei adolygu yn flynyddol neu os daw newidiadau statudol neu reoleiddiol yn unol â pharagraff 41.

42. Mae gan y Prif Swyddog Tân awdurdod i wneud mân newidiadau o ganlyniad i newid statudol neu reoleiddiol, neu i ddiweddaru trefniadau o ganlyniad i ffactorau allanol eraill.